ARMED FORCES COVENANT
LLUOEDD ARFOG CYFAMOD

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfamod y Lluoedd Arfog Adroddiad Blynyddol 2019 Llywodraeth Cymru

Cyflwynwyd i Senedd Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 15.2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006







# Llywodraeth Ei Mawrhydi

– a –

## Phawb sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Goron, a'u Teuluoedd.

Dyletswydd gyntaf y Llywodraeth yw amddiffyn y deyrnas. Mae ein Lluoedd Arfog yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw ar ran y Llywodraeth, gan aberthu rhai rhyddidau sifiliaid, gan wynebu perygl ac, weithiau, yn dioddef anaf difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i'w dyletswydd.

Mae gan deuluoedd rôl hanfodol hefyd wrth gefnogi effeithiolrwydd gweithredol ein Lluoedd Arfog. Yn gyfnewid am hyn, mae gan y genedl gyfan rwymedigaeth foesol i aelodau Gwasanaeth y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr Brenhinol, ynghyd â'u teuluoedd.

Maent yn haeddu ein parch a'n cefnogaeth, a chael eu trin yn deg.

Ni ddylai'r rheiny sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, p'un ai yn y Lluoedd Rheolaidd neu'r Lluoedd Wrth Gefn, y rheiny sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, a'u teuluoedd, wynebu unrhyw anfantais o gymharu â dinasyddion eraill o ran darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a masnachol.

Mae ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi i'r eithaf, fel y rhai sydd wedi'u hanafu a'r rhai sy'n galaru.

Mae'r rhwymedigaeth hon yn cynnwys y gymdeithas gyfan:

mae'n cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennol, sefydliadau preifat, a gweithredoedd unigolion wrth gefnogi'r Lluoedd Arfog. Mae cydnabod y rheiny sydd wedi cyflawni dyletswydd filwrol yn uno'r wlad ac yn dangos gwerth eu cyfraniad.

Ni ellir mynegi hyn yn fwy nag wrth ategu'r Cyfamod hwn.

OGL WG40833 © Hawlfraint y Goron 2020 ISBN argraffu: 978-1-80082-233-7 ISBN digidol: 978-1-80082-234-4

# Cynnwys

04 Rhagair

06 Sylwadau – Adborth gan aelodau Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog

08 Trosolwg Gweithredol

10 Crynodeb o'r Prif Gyflawniadau

17 Llywodraethu

24 Iechyd a Lles

35 Addysg

39 Tai

41 Buddion a Chyllid

45 Cymorth wrth ddychwelyd i Fywyd Allan o'r Lluoedd Arfog

51 Cyflogaeth a Sgiliau

54 Coffáu

56 Beth fyddwn ni'n ei wneud

58 Gair i Gloi

# Rhagair Gweinidogol ar y Cyd

**Mae ein Lluoedd Arfog yno i ni bob amser yn ystod y cyfnodau mwyaf heriol, ac mae hynny wedi bod yn wir erioed.**

Yn ystod hanner cyntaf 2020, gwelwyd llawer o dystiolaeth unwaith eto o ymrwymiad a gallu ein Lluoedd Arfog, ac fel cenedl rydym yn falch dros ben ohonynt ac yn hynod ddiolchgar iddynt.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i dalu teyrnged arbennig i'r dynion a'r menywod yn ein Lluoedd Arfog sydd wedi gweithio'n ddiflino eleni – ac sy'n parhau i wneud hynny – ochr yn ochr ag eraill er mwyn helpu ein cenedl i oresgyn yr heriau eithriadol sy'n gysylltiedig â phandemig Covid-19.

Rydym hefyd yn cydnabod y gefnogaeth sylweddol gan ein sefydliadau partner yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Mae cymuned y Lluoedd Arfog wedi rhoi cymorth i'n GIG a'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau, pan oedd angen hynny arnynt fwyaf.

Mae'r Lluoedd Arfog wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, gyda'n Byrddau Iechyd Lleol a gyda phartneriaid allweddol i ddarparu arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau hanfodol i helpu i ddelio â Covid-19, ac maen nhw'n gwneud gwahaniaeth sylweddol a chadarnhaol i fywydau pobl Cymru.

Ym mis Mai 2018, fe wnaethom lansio ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf fel Llywodraeth ynghylch Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Gwnaethom hynny oherwydd roeddem yn teimlo ei bod yn briodol i ni amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru, ein hymrwymiad parhaus i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog, a'r cyfraniad enfawr maen nhw'n ei wneud i'n cymunedau.

Gosodwyd y ddogfen gerbron y Senedd er mwyn i bobl Cymru ei hasesu a chraffu arni.

Roedd hefyd yn cynnwys ymrwymiadau allweddol ar gyfer 2019/20 y byddai Llywodraeth Cymru a'n partneriaid allweddol yn eu cyflawni.

Rydym yn falch o weld bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud gyda'r holl ymrwymiadau hynny, a llawer o rai newydd hefyd.

Fodd bynnag, mae bob amser yn bosib gwneud mwy.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo sgiliau a phrofiad cymuned y Lluoedd Arfog, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar y sgiliau maen nhw wedi'u dysgu wrth ddychwelyd i fywyd y tu allan i'r Lluoedd Arfog.

> Mae cymuned y Lluoedd Arfog yn ased enfawr i'n cenedl.
>
> Rydym yn cydnabod eu cyfraniad amhrisiadwy, a byddwn ni'n parhau i'w cefnogi.

Byddwn yn ystyried pa gymorth y gallwn ni ei ddarparu i deuluoedd mwy bregus sy'n aml yn cael trafferth addasu wrth adael bywyd y Lluoedd Arfog, a byddwn yn ceisio cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ymysg darparwyr gwasanaeth am gymuned y Lluoedd Arfog, er mwyn helpu i sicrhau bod cymorth ar gael pan fydd angen.

Yn ystod y flwyddyn adrodd bresennol, fe wnaethom nodi 75 mlynedd ers D-Day a Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (Diwrnod VE).

Talwyd teyrnged i gyn-filwyr a fu'n ymladd yn ddewr, a'r rheini ar y ffrynt cartref yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Gwnaethom hynny mewn amgylchiadau na allai neb fod wedi'u rhagweld. Er y bu'n rhaid i ni newid y ffordd roeddem yn nodi'r garreg filltir bwysig hon yn sgil y cyfyngiadau a oedd ar waith oherwydd Covid 19, nid oedd hynny wedi lleihau'r ymdeimlad o barch a chydnabyddiaeth a welwyd gan bobl Cymru tuag at bopeth mae ein holl gyn-filwyr wedi'i wneud i helpu i siapio ein cymdeithas heddiw.

Mae rhai aelodau – ond nid pawb o bell ffordd – o bersonél presennol y Lluoedd Arfog, y gymuned o gyn-bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, angen cefnogaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o enghreifftiau o sut rydym yn darparu'r gefnogaeth honno, yn buddsoddi mewn gwasanaethau, yn gweithio gyda phartneriaid ac yn neilltuo adnoddau er mwyn diwallu anghenion.

Er mwyn gwneud hynny'n llwyddiannus, mae'n rhaid gwrando ar gymuned y Lluoedd Arfog a'r rheini sy'n gweithio gyda nhw.

Gwyddom fod anghenion pobl yn newid. Er mwyn deall yr anghenion, cynhaliwyd ein Hymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr y llynedd a oedd yn casglu barn, profiadau ac adborth cyn-filwyr a sefydliadau.

Rydym yn falch bod yr argymhellion sydd wedi deillio o'r gwaith hwnnw'n cael sylw yn awr, a byddwn ni'n mynd ati'n ofalus i fonitro'r gwaith o gyflawni'r argymhellion hynny.

Mae cymuned y Lluoedd Arfog yn ased enfawr i'n cenedl.

Rydym yn cydnabod eu cyfraniad amhrisiadwy, a byddwn ni'n parhau i'w cefnogi.



**Julie James AS**
Y Gweinidog Tai
a Llywodraeth Leol



**Hannah Blythyn AS**
Y Dirprwy Weinidog Tai
a Llywodraeth Leol

# Sylwadau

## Adborth gan aelodau Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog

**Mae Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog yn dod â phobl a sefydliadau ynghyd sydd â gwybodaeth fanwl am faterion sy'n effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.**

Mae'r grŵp yn rhoi cyngor, adborth a gwybodaeth i Lywodraeth Cymru er mwyn deall anghenion y gymuned yn well, ac awgrymiadau ynghylch sut gellid gwella'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Mae aelodau Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog yn gefnogol o Adroddiad Blynyddol 2019 yn gyffredinol, ac yn gwerthfawrogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r agenda hon.

Sylwadau gan aelodau'r Grŵp Arbenigol:

Mae **Ffederasiynau Teuluoedd y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr Brenhinol** yn gwerthfawrogi'n fawr y berthynas waith agos sydd gennym â Llywodraeth Cymru i gefnogi cymunedau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod y cynnydd a wnaed ar yr ymrwymiadau sydd wedi'u rhestru, ac yn ystyried Cymru yn lle croesawgar a chadarnhaol i'n Lluoedd Arfog a'u teuluoedd fyw a gweithio.

Hoffem weld y llwyfan Swyddi i Deuluoedd y Lluoedd Arfog yn cael mwy o sylw, ac rydym yn annog pob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol i hysbysebu swyddi gwag drwy'r porth hwn.

Hoffem weld cydnabyddiaeth o waith gwych Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sydd wedi mynd ati, drwy bolisïau, i'w gwneud yn haws i blant y Lluoedd Arfog gael gafael ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Dylid dathlu hyn o dan yr adran Blaenoriaethu Triniaeth, a byddem wir yn hoffi gweld hyn yn cael ei efelychu ledled Cymru.

Er ei bod yn ddealladwy yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae'n siomedig clywed am yr oedi wrth adolygu'r cod derbyn i ysgolion, ac rydym yn gobeithio y gellir ailgadarnhau'r ymrwymiad hwn yn fuan.

Rydym yn nodi bod rhagor o waith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â'r problemau y mae rhai o aelodau personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd yn eu hwynebu o ran ffioedd y dreth gyngor.

O ran anrhydeddu lleoedd ar restrau aros wrth symud i ardal arall yng Nghymru – hoffem gael cadarnhad a fydd hyn yn cael ei ehangu i gynnwys aelodau o'r teulu sy'n symud i Gymru o rannau eraill o'r DU, yn unol ag ymrwymiad Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Hoffem weld amserlenni a gytunwyd ar gyfer gwella'r data am blant y Lluoedd Arfog mewn ysgolion yng Nghymru, oherwydd nid oes llawer o gynnydd wedi'i wneud yn ôl pob golwg.

Hoffai'r **GIG a GIG Cymru i Gyn-filwyr** weld y canllawiau Gofal Iechyd i Gyn-filwyr yn y Carchar yn cael eu diweddaru, er mwyn ystyried gwaith SToMP mewn carchardai a diffyg atgyfeiriadau i GIG Cymru i Gyn-filwyr gan gyn-filwyr sydd yn y carchar.

Mae GIG Cymru i Gyn-filwyr wedi cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys opsiwn i gyflogi chwe therapydd ychwanegol ar gyfer cyn-filwyr a Mentoriaid cymheiriaid i weithio mewn carchardai ac yn y gymuned.

Mae'r **Lleng Brydeinig Frenhinol** yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, a gyda phob plaid yn y Senedd, i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.

Mae'r gefnogaeth ariannol barhaus gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog yn newyddion rhagorol.

Mae'r swyddi hyn yn sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cyflawni eu hymrwymiadau o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog, ac mae hynny'n waith pwysig.

Mae'r cyllid ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog i'w groesawu hefyd. Mae rhai o blant y Lluoedd Arfog yn gallu wynebu heriau ychwanegol wrth newid ysgol yn amlach, a mwy o straen emosiynol.

Rydym wedi gweld y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd arloesol i roi cymorth ychwanegol i'r disgyblion hynny sydd mewn sefyllfa fregus.

Ar ôl dros bedair blynedd o ymgyrchu gan y Lleng Brydeinig Frenhinol, am y tro cyntaf erioed bydd cyfrifiad 2021 yn cynnwys cwestiwn am wasanaeth milwrol.

Gobeithio y bydd hyn yn helpu llywodraethau ac elusennau i dargedu gwasanaethau'n well ar gyfer ein cymuned. Rydym yn ddiolchgar i bawb a fu'n cefnogi ein hymgyrch "Count Them in".

Wrth gwrs, mae'r gwaith yn ddiderfyn, ac rydym yn dal i bwyso am welliannau mewn meysydd fel ynysigrwydd cymdeithasol yng nghymuned y Lluoedd Arfog, mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, tai a gwella'r broses i'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog ac yn dychwelyd i fywyd bob dydd.

Byddwn yn parhau i gydweithio â chydweithwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol i gyflawni hyn.

Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllid pellach o £275,000 dros y ddwy flynedd nesaf ar gyfer Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog, o fis Ebrill 2021 ymlaen, yn galonogol ym marn y **Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol dros Gymru**.

Rydym yn edrych ymlaen at fod yn rhan o'r Grwpiau Gweithredu sydd wedi cael eu sefydlu er mwyn bwrw ymlaen ag argymhellion/canfyddiadau'r Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr.

Mae'r cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd sylfaenol mewn carchardai yn gam cadarnhaol iawn.

> Byddwn yn parhau i gydweithio â chydweithwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol i gyflawni hyn.

# Trosolwg Gweithredol

## Cyflawni dros Gymuned y Lluoedd Arfog

Rydym yn falch o allu cyflwyno ein hail Adroddiad Blynyddol ar Gyfamod y Lluoedd Arfog i Senedd Cymru, ac i bobl Cymru. Fel gyda'n hadroddiad cyntaf, ei nod yw amlinellu'r cynnydd a'r hyn sydd wedi'i gyflawni o ran cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog, gan gynnwys rhoi sylw i'r dull partneriaeth a chydweithredol sydd mor bwysig er mwyn sicrhau canlyniadau llwyddiannus i gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

### Helpu Cymunedau Cymru drwy gyfnod Covid-19

Ein hymateb cenedlaethol i Covid-19 sy'n llywio rhan olaf y cyfnod sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn. Ers mis Mawrth 2020 mae'r pandemig wedi cael effaith enfawr ar ein gwlad, ac mae'n dal i gael effaith enfawr, ac mae llawer o bobl wedi colli eu bywyd yn anffodus.

Hoffem dalu teyrnged i rôl cymuned y Lluoedd Arfog yn ein hymateb i Covid-19. Mae personél y Lluoedd Arfog wedi bod yn allweddol wrth gefnogi ein GIG a chymunedau lleol. Mae sefydliadau cymorth a chyn-filwyr wedi bod yn gwneud llawer o waith i helpu eu cymunedau lleol.

Rydym wedi gweld llawer o enghreifftiau o gymunedau'n dod at ei gilydd ac yn cefnogi ei gilydd, ac mae ein Lluoedd Arfog wedi bod yn rhan ganolog o'r ymdrech honno'n aml iawn. Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld yn uniongyrchol sgiliau, ymrwymiad a phrofiad ein Lluoedd Arfog wrth iddyn nhw darparu cefnogaeth yn ystod cyfnodau anodd iawn.

### Gwrando ar gymuned y Lluoedd Arfog – gweithredu

Adeg cyhoeddi adroddiad y llynedd, roedd ein Hymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr wrthi'n cael ei gynnal, gyda'r nod o gasglu adborth gan y gymuned o gyn-bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd ynghylch unrhyw fylchau ymddangosiadol yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Cwblhawyd y gwaith hwnnw yn ystod Hydref 2019, ac rydym nawr yn bwrw ymlaen â'r canfyddiadau. Hefyd, yr Ymarfer Cwmpasu oedd cyfraniad Llywodraeth Cymru at y Strategaeth Cyn-filwyr, sy'n strategaeth newydd ar gyfer y DU i gyd. Rydym yn falch i ni gael y cyfle i gydweithio â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig eraill ar y gwaith pwysig hwn. Bydd y cydweithio hwnnw'n parhau wrth i Lywodraeth y DU sefydlu'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr.

### Gweithio gyda'r Arbenigwyr

Rydym wedi parhau i gydweithio'n uniongyrchol â chymuned y Lluoedd Arfog. Mae hyn wedi cynnwys ymweld â grwpiau cymorth a siarad yn uniongyrchol â chyn-filwyr, teuluoedd a'r rheini sy'n gweithio gyda nhw, ynghyd â'r lluoedd arfog yng Nghymru. Mae Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, yn ogystal ag aelodau fforymau rhanbarthol a lleol y Lluoedd Arfog, yn parhau i roi cefnogaeth werthfawr i'r broses o ddarparu gwasanaethau ledled Cymru.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd yn erbyn y pedwar maes blaenoriaeth a amlinellwyd fel rhai pwysig gan aelodau'r Grŵp Arbenigol yn adroddiad y llynedd – blaenoriaethu triniaeth, cefnogi cyn-filwyr sydd angen cymorth gydol oes, cefnogi a gwreiddio gwaith Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog, a gweithio i wella'r data am blant y Lluoedd Arfog.

Rydym hefyd yn parhau i roi cefnogaeth flynyddol i Ddiwrnodau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru, gan roi cyfle i'r cyhoedd fynegi eu cefnogaeth a'u diolch i gymuned ehangach y Lluoedd Arfog.



# Y prif gyflawniadau yng Nghymru

## Iechyd a lles

- Rydym yn parhau i ddarparu £700,000 y flwyddyn i wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr, sydd wedi helpu cyn-filwyr drwy gynnig triniaeth iechyd meddwl.
- Rydym wedi helpu 94 o gyn-filwyr i gael gafael ar wasanaethau prosthetigau drwy'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALAS).
- Mae 31 o driniaethau llwybr carlam wedi cael eu cymeradwyo eleni, ac amcangyfrifir bod hynny wedi costio £72,473. Mae hynny wedi sicrhau bod personél y Lluoedd Arfog yn cael y driniaeth sydd ei hangen arnynt i'w galluogi i ddychwelyd i'w swyddi yn y Lluoedd Arfog.
- Roeddem wedi lansio'r strategaeth gyntaf ar Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol ar gyfer Cymru, gan gydnabod sut gall rhai aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog deimlo'n unig ac yn ynysig yn gymdeithasol. Roeddem wedi darparu £120,000 i fynd i'r afael â'r mater hwn ymysg cymuned y Lluoedd Arfog, ac mae rhywfaint o'r cyllid hwn hefyd wedi helpu elusennau i gefnogi'r gymuned o gyn-bersonél y Lluoedd Arfog yn ystod pandemig Covid-19.

## Addysg

- Roeddem wedi parhau i gefnogi prosiect SSCE Cymru, sy'n rhoi adnoddau ac arweiniad gwerthfawr i blant, teuluoedd ac ysgolion y Lluoedd Arfog.
- Roeddem wedi cynorthwyo SSCE Cymru, Prifysgol De Cymru a Chynghrair Datblygiad Plant y Lluoedd Arfog (SCIP) i sefydlu hyb Cynghrair SCIP yng Nghymru i ddatblygu ymchwil, data, dulliau o gydweithio a chapasiti yn y sector.
- Mae cronfa Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog wedi darparu £250,000 i helpu ysgolion yng Nghymru i ddeall anghenion plant y Lluoedd Arfog, ac i sicrhau bod ganddynt y sgiliau i ymdopi â heriau ffordd o fyw'r Lluoedd Arfog drwy gydol eu haddysg.
- Drwy ein Cynllun Addysg Bellach ac Addysg Uwch, rydym wedi darparu £200,441 yn 2018-19 i alluogi pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr ledled Cymru i elwa o Addysg Bellach ac Addysg Uwch, gan wella eu hyder, eu haddysg a'u cyfleoedd gwaith.

## Tai

- Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £10 miliwn i helpu Awdurdodau Lleol i sicrhau'r llety sydd ei angen i amddiffyn y rheini sydd yn y sefyllfa fwyaf bregus mewn perthynas â phandemig Covid-19.
- Roeddem wedi gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol i ganfod a sicrhau pob math o lety ac i hwyluso lefelau priodol o gefnogaeth, er mwyn rhoi llety i bobl a oedd mewn sefyllfa fregus a phobl wedi'u dadleoli, gan gynnwys cyn-bersonél y Lluoedd Arfog.
- Mae £20 miliwn wedi cael ei ddarparu i sicrhau bod y rheini sydd mewn llety dros dro, gan gynnwys unrhyw gyn-bersonél y Lluoedd Arfog, yn gallu symud i dŷ cynaliadwy hirdymor.

## Buddion a chyllid

- Rydym wedi sefydlu Grŵp Gweithredu ar Ymwybyddiaeth a Gwybodaeth, sy'n grŵp amlasiantaeth, i wella'r wybodaeth sydd ar gael i gymuned y Lluoedd Arfog ac i godi ymwybyddiaeth o'r buddion a'r cymorth ariannol sydd ar gael.

## Cymorth wrth ddychwelyd i fywyd allan o'r Lluoedd Arfog

- Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £275,000 y flwyddyn o gyllid pellach ar gyfer Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog, am 2 flynedd o fis Ebrill 2021 ymlaen.
- Rydym wedi cefnogi'r Gwasanaethau Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog, sy'n wasanaeth newydd i helpu'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog ac yn dychwelyd i Gymru.
- Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddwyd ein hadroddiad Ymarfer Cwmpasu ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog. Mae gwaith yn cael ei wneud yn awr i fwrw ymlaen â'r argymhellion.

## Cyflogaeth

- Ar y cyd â Busnes yn y Gymuned Cymru a Llywodraeth yr Alban, rydym yn datblygu atodiad i'n Pecyn Cymorth i Gyflogwyr ar gyfer partneriaid y Lluoedd Arfog, i gynghori cyflogwyr ynghylch y ffordd orau o fanteisio ar sgiliau teuluoedd y Lluoedd Arfog.
- Rydym yn parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar wybodaeth newydd sy'n benodol i Gymru ar gyfer pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog, i sicrhau bod y rheini sy'n dod i Gymru ar ôl gadael y Lluoedd Arfog yn gallu cael gwybodaeth gyfredol am y cymorth sydd ar gael yma.

## Cymorth i Deuluoedd

- Rydym wedi diweddaru ein dogfen **Croeso i Gymru**, sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd sy'n dymuno symud i Gymru.

## Coffáu

- Gyda phartneriaid a phobl ledled Cymru, fe wnaethom goffáu 75 mlynedd ers Diwrnod VE, ac ers rhyddhau dinas s'Hertogenbosch yn yr Iseldiroedd.
- Rydym hefyd yn parhau i roi cefnogaeth flynyddol i Ddiwrnodau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru, gan roi cyfle i'r cyhoedd fynegi eu cefnogaeth a'u diolch i gymuned ehangach y Lluoedd Arfog. Gwnaed hyn dros y we eleni oherwydd pandemig Covid-19, ac mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer diwrnodau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru yn y dyfodol, gan weithio gyda'r Lluoedd Arfog, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phartneriaid eraill.

# Adolygu ein hymrwymiadau ar gyfer 2019/20

| **Beth ddywedom y byddem ni'n ei wneud:** | **Beth sydd wedi cael ei wneud ers y llynedd:** |
|---|---|
| Parhau i ariannu GIG Cymru i Gyn-filwyr er mwyn i gyn-filwyr allu cael triniaeth ar gyfer materion iechyd meddwl yn benodol. | Wedi darparu £700,000 o gyllid er mwyn i gyn-filwyr gael triniaeth iechyd meddwl. Rydym hefyd wedi darparu £85,000 o gyllid ychwanegol i gefnogi therapyddion ar gyfer cyn-filwyr. |
| Byddwn hefyd yn creu ac yn buddsoddi mewn cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol i atal achosion o hunanladdiad a hunan-niweidio. | Wedi sefydlu dulliau gweithredu rhanbarthol ledled Cymru drwy ein darparwyr yn y GIG, i fynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niweidio. |
| Parhau i adolygu'r broses o ddarparu'r Llwybr Atgyfeirio Carlam er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei ddarparu. | Cafodd 31 o driniaethau llwybr carlam eu darparu rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, a oedd wedi costio £72,473. |
| Parhau i ariannu cynlluniau teithio am ddim ar fysiau ar gyfer cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu. | Parhau i roi hawl i'r rheini sy'n cael taliadau Iawndal y Lluoedd Arfog i gael cerdyn teithio'n rhatach ar fws. |
| Parhau i ariannu cynlluniau nofio am ddim i gyn-filwyr a phersonél y Lluoedd Arfog tan 2021. | Wedi parhau i ddarparu cyllid. Er bod cyfleusterau hamdden wedi cau yn ystod pandemig Covid-19, cofnodwyd 8,319 o sesiynau nofio am ddim. |
| Sicrhau bod cyn-filwyr, personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd yn rhan o'r gwaith i gyflwyno ein strategaeth gyntaf ar Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol. | Mae effaith bosibl y Strategaeth Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol ar gymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei hadlewyrchu a'i chydnabod yn strategaeth newydd Llywodraeth Cymru.<br><br>Darparwyd £120,000 o gyllid i gyrff yng Nghymru i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yng nghymuned y Lluoedd Arfog. |
| Parhau i gydweithio â Phrifysgol Abertawe i gefnogi ymchwil ar gamblo yng nghymuned y Lluoedd Arfog. | Hyrwyddo'r ymchwil ar draws sector y Lluoedd Arfog yng Nghymru drwy fforymau cenedlaethol a rhanbarthol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi hwyluso'r gwaith o restru'r Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Trin Gamblo ar wefan 'Veterans' Gateway'. |

| **Beth ddywedom y byddem ni'n ei wneud:** | **Beth sydd wedi cael ei wneud ers y llynedd:** |
|---|---|
| Ymgynghori â chymuned y Lluoedd Arfog ynghylch statws cyn-filwyr, fel rhan o'n hymgynghoriad ar flaenoriaethu angen ym maes tai. | Roedd ein Hymarfer Cwmpasu yn casglu profiadau ac adborth gan gyn-filwyr ynghylch y ddarpariaeth dai – bydd hyn yn helpu i lywio polisïau tai wrth symud ymlaen. |
| Diweddaru'r Cod Canllawiau ar Ddyrannu Tai a Digartrefedd – gan gynnwys ystyried cymorth i wŷr/gwragedd priod a phartneriaid sifil sydd wedi ysgaru neu wedi gwahanu oddi wrth bersonél y Lluoedd Arfog. | Mae hyn wedi cael ei ohirio oherwydd pandemig Covid-19. |
| Darparu rhagor o gyllid ar gyfer Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog am 2 flynedd o 2019 ymlaen. | Mae cyllid o £275,000 wedi cael ei gadarnhau ar gyfer pob un o'r ddwy flynedd nesaf, o fis Ebrill 2021 ymlaen. |
| Gweithio gyda 'Veterans' Gateway', Prifysgol Northumbria a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi cyhoeddusrwydd i wasanaethau lleol, gan gynnwys hybiau a grwpiau cymorth i gyn-filwyr, er mwyn i gymuned y Lluoedd Arfog allu cael gafael ar wasanaethau a chymorth gan gymheiriaid yn lleol. | Mae gwefan 'Veterans' Gateway' wedi cael ei diweddaru gyda gwybodaeth am hybiau/grwpiau cymorth yng Nghymru. Mae 'Swyddog Cyfamod' dynodedig yn Llywodraeth Cymru yn gallu llwytho gwybodaeth i fyny i'r Cyfeiriadur gwasanaethau. |
| Parhau i roi cefnogaeth i Fforymau'r Lluoedd Arfog ledled Cymru er mwyn cael gwybod am broblemau sy'n dod i'r amlwg ac arferion da. | Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i ymweld â fforymau rhanbarthol y Lluoedd Arfog er mwyn casglu adborth am y broses o gyflawni'r Cyfamod ledled Cymru, a dylanwadu ar y broses honno. |
| Gweithio gyda Busnes yn y Gymuned Cymru i hyrwyddo'r manteision o gyflogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog a'r 'Wythnos Ymwybyddiaeth o Gyn-filwyr'. | Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu Atodiad i'r Pecyn Cymorth i Gyflogwyr ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog, a bydd yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn 2020. |

| **Beth ddywedom y byddem ni'n ei wneud:** | **Beth sydd wedi cael ei wneud ers y llynedd:** |
|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi a hyrwyddo Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn. | Yn 2019 roedd Llywodraeth Cymru, gyda'r Lluoedd Wrth Gefn a Chymdeithas Cadetiaid Cymru, wedi cymryd rhan mewn digwyddiad yn y Senedd i ddathlu cyfraniad y Milwyr Wrth Gefn at ein Lluoedd Arfog. |
| Fel rhan o raglen Cymru'n Cofio, ystyried sut gellir sicrhau bod yr etifeddiaeth a'r straeon hyn ar gael i genedlaethau'r dyfodol. | Mae dogfen yn cael ei pharatoi i adlewyrchu'r gwaith coffáu sylweddol a wnaed yng Nghymru a thu hwnt dros y chwe blynedd diwethaf. Bydd gwefan Cymru'n Cofio hefyd yn gadael gwaddol digidol ar gyfer y rhaglen, a bydd ar gael am y pum mlynedd nesaf. |
| Parhau i gefnogi digwyddiadau coffa, gan gynnwys 75 mlynedd ers D-Day a Diwrnod VE, ac ers i ddinas S'Hertogenbosch gael ei rhyddhau gan filwyr o Gymru. | Bu'r Prif Weinidog yn nigwyddiadau coffa D-Day yn Ffrainc, ac yn siarad â chyn-filwyr dros y ffôn – oherwydd cyfyngiadau Covid-19 – i goffáu Diwrnod VE.<br><br>Bu'r Prif Weinidog yn cynrychioli Cymru yn nigwyddiadau coffa s'Hertogenbosch yn yr Iseldiroedd. |
| Llunio adroddiad sy'n rhoi manylion am ganfyddiadau ac argymhellion ein Hymarfer Cwmpasu, a gweithio gyda phartneriaid allweddol i ganfod ffyrdd o ddatrys problemau a nodir. | Wedi llunio'r adroddiad a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2020. Ymateb i strategaeth Cyn-filwyr y DU a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU.<br><br>Wedi sefydlu Grwpiau Gweithredu i ystyried ac ymateb i faterion sy'n codi (darllenwch yr adran Ymarfer Cwmpasu). |
| Gweithio gyda'r Ffederasiynau Teuluoedd i gael gwybod pa gefnogaeth sydd ei hangen ar deuluoedd y Lluoedd Arfog sy'n byw yng Nghymru. | Cydweithio'n rheolaidd â'r Ffederasiynau Teuluoedd.<br><br>Ym mis Hydref 2019, lansiwyd y gwasanaeth Swyddi i Deuluoedd y Lluoedd Arfog yng Nghymru. |

| **Beth ddywedom y byddem ni'n ei wneud:** | **Beth sydd wedi cael ei wneud ers y llynedd:** |
|---|---|
| Adnewyddu ein dogfen Croeso i Gymru ar gyfer personél y Lluoedd Arfog. | Wedi cwblhau'r gwaith. Wedi cyhoeddi'r ddogfen wedi'i diweddaru, ac wedi'i rhannu â'r holl bartneriaid allweddol. |
| Parhau i hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o recriwtio Milwyr Wrth Gefn yn Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, wrth gyfathrebu ynghylch Ddiwrnod y Lluoedd Arfog a phryd bynnag y bydd y cyfle'n codi. | Wedi pwysleisio rôl Milwyr Wrth Gefn yn Llywodraeth Cymru fel rhan o wythnos y Lluoedd Arfog. |
| Parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith i allu casglu data am blant y Lluoedd Arfog mewn ysgolion, drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. | Mae'r gwaith yn parhau er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer casglu data ynghylch plant y Lluoedd Arfog mewn ysgolion. |
| Parhau i adolygu'r Cod Derbyn i Ysgolion ar gyfer plant y Lluoedd Arfog, er mwyn sicrhau nad yw teuluoedd y Lluoedd Arfog o dan anfantais oherwydd y ffordd mae'r Cod yn cael ei ddehongli. | Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn cael ei adolygu'n barhaus. Mae COVID-19 wedi arwain at oedi. |

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog.



# Sut rydym yn gweithio i gyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog. Gan weithio'n agos gyda'n partneriaid – y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Swyddfa Materion Cyn-filwyr, y Lluoedd Arfog, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, elusennau'r lluoedd arfog a sefydliadau sy'n cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog – ein nod yw sicrhau bod gwasanaethau effeithlon ac effeithiol yn cael eu darparu, sy'n diwallu anghenion amrywiol y gymuned hon.**

## Cydweithio ar lefel y DU

Rydym wedi parhau i weithio â Llywodraeth y DU, a'r gwledydd datganoledig eraill, dros y flwyddyn diwethaf. Mae'r gwaith wedi cynnwys y canlynol:

» **Deddfwriaeth y Cyfamod:** Mae Llywodraeth Cymru wedi helpu i sicrhau bod safbwyntiau sector y Lluoedd Arfog yng Nghymru wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu Deddfwriaeth arfaethedig y DU ar gyfer y Cyfamod.

» **Grŵp Cyflawni'r Cyfamod**: Mae swyddogion yn mynychu Grŵp Cyflawni Cyfamod y DU, sy'n monitro'r gwaith o gyflawni polisïau allweddol ar hyd a lled y DU.

» **Y gwledydd datganoledig**: Mae Cymru yn cael ei chynrychioli ar fforwm gwledydd datganoledig y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'n rhoi sylw i'r arferion gorau ym mhob cwr o Gymru, ac yn tynnu sylw at elfennau sy'n peri pryder a godir drwy Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog a sefydliadau partner.

## Datblygiadau yn ystod y flwyddyn diwethaf

Yn 2019, daeth holl wledydd y DU at ei gilydd i ffurfio **Grŵp Cydlynu Strategaeth Cyn-filwyr y DU** – grŵp newydd sy'n galluogi pedair gwlad y DU i gydlynu'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth ar gyfer Cyn-filwyr ar draws y DU.

Eleni, rydym wedi sefydlu **Bwrdd Rhaglen** newydd a **Grŵp Trawslywodraethol** gyda phartneriaid allweddol i helpu i sicrhau bod argymhellion yr Ymarfer Cwmpasu cyn-filwyr yn cael eu cyflawni.

Mae **Grwpiau Gweithredu** wedi cael eu sefydlu i fwrw ymlaen â'r argymhellion, ar faterion mor amrywiol a phwysig â Chyflogaeth, Gadael y Lluoedd Arfog, Gwybodaeth/Ymwybyddiaeth a Chyllid. Gan adlewyrchu ehangder y materion sy'n cael eu hystyried, mae aelodaeth y grwpiau hyn yr un mor amrywiol. Er mwyn osgoi dyblygu, defnyddir fforymau/llwybrau cynnydd sydd eisoes wedi'u sefydlu mewn meysydd fel iechyd, tai, addysg a chyfiawnder troseddol. (edrychwch ar y diagram isod)

# Strwythyr Llywodraethu yr Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr

## Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog

↓

### Bwrdd Rhaglen

Yn cynnwys cadeiryddion y Grwpiau Gweithredu, rhanddeiliaid allanol allweddol, ac aelodau mewnolar draws y Llywodraeth.

### Grŵp Trawsbleidiol y Lluoedd Arfog

Swyddogion Llywodraeth Cymru, ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr, i drafod camau gweithred  Llywodraeth Cymru yn unig o'r cynllun cyflawni.

↓

### Grwpiau gweithredu thematig a fforymau trafod

- Cyfiawnder Troseddol
- Tai
- Iechyd/ Lles
- Gwybodaeth/ ymwybyddiaeth a chyllid
- Addysg
- Cyflogaeth/ Sgiliau
- Gadael y Lluoedd Arfog/ Adsefydlu

## Gwrando

Mae gan Lywodraeth Cymru – gan weithio'n agos gyda phartneriaid – strwythurau ar waith i nodi materion allweddol ac i weithredu, i rannu gwybodaeth ac arferion gorau, ac i sicrhau ein bod yn clywed lleisiau unedig cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

- **Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog** – o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol. Mae'r grŵp yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn, ac mae ei aelodau'n llais strategol ar ran cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, ac yn ystyried problemau pwysig a dulliau o ddatrys y rhain ar y cyd.

  Mae **Rhwydwaith y Lluoedd Arfog** – sydd o dan gadeiryddiaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn – yn ystyried materion sydd o ddiddordeb lleol a rhanbarthol i gymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol, ochr yn ochr â chynrychiolwyr o sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.

- **Fforymau Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol y Lluoedd Arfog** – mae'r grwpiau hyn, a drefnir yn rhanbarthol ac ar lefel Awdurdod Lleol, yn dod â Llywodraeth Leol, iechyd, y Lluoedd Arfog, asiantaethau statudol ac elusennau'r Lluoedd Arfog at ei gilydd i ystyried materion allweddol, i nodi arferion gorau, i gydlynu gwasanaethau, ac i dynnu sylw at elfennau i'w hystyried ymhellach ar lefel Cymru gyfan.

- Mae materion lleol yn cael eu cofnodi drwy Fforymau Lleol a **Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog** ar hyd a lled Cymru, er mwyn sicrhau bod canllawiau a gwasanaethau'r Cyfamod wedi'u sefydlu mewn Awdurdodau Lleol. Mae Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog hefyd yn aelodau allweddol o Rwydwaith y Lluoedd Arfog a **Fforymau Awdurdodau Lleol** a **Rhanbarthol y Lluoedd Arfog**.

**Grwpiau cymorth** – mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymweld â grwpiau cymorth i gyn-filwyr/teuluoedd i gasglu safbwyntiau cymuned y Lluoedd Arfog. Fel rhan o'n Hymarfer Cwmpasu, roedd swyddogion wedi ymweld â dros 40 o hybiau/grwpiau cymorth i gyn-filwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn ystod haf 2019, cynhaliwyd 5 sesiwn ychwanegol i randdeiliaid ledled Cymru. Daeth 77 o elusennau ac asiantaethau statudol i'r sesiynau hynny i ystyried y camau y gellir eu cymryd, gan sicrhau bod y rheini sy'n gweithio gyda chymuned y Lluoedd Arfog yn cyfrannu at yr argymhellion. Mae'r argymhellion terfynol yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd.

**Cydweithio â Gweinidogion** – mae'r Prif Weinidog, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol a Gweinidogion eraill yn cwrdd yn rheolaidd ag uwch arweinwyr Milwrol yng Nghymru, i drafod materion sydd o ddiddordeb ac yn achosi pryder i'r naill ochr a'r llall. Ystyrir cyfleoedd i ymgysylltu a chydweithio, ac eleni gwelwyd cydweithio ar ddigwyddiadau pwysig gan gynnwys dathliadau D-Day, Diwrnod y Lluoedd Arfog a Diwrnod VE, a mynd i hyfforddiant Patrôl Cambrian y Lluoedd Arfog.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod gwerth cydweithio'n ehangach â'n partneriaid a chymuned y Lluoedd Arfog.


Cynhelir **Cynhadledd Cyfamod y Lluoedd Arfog** bob blwyddyn, ac mae'n denu cynulleidfa amrywiol o bob cwr o Gymru.

Mae'n gyfle i Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog mewn Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol, y Trydydd Sector, y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Ffederasiynau Teuluoedd,

yn ogystal â llawer o bobl eraill sydd â diddordeb mewn materion y Lluoedd Arfog, i drafod cynlluniau newydd, i rannu arferion da ac i ystyried cyfleoedd i gydweithio ymhellach.

Rydym yn mynychu **cyfarfod Elusennau'r Lluoedd Arfog ar gyfer Cymru gyfan**, a drefnir gan y Lleng Brydeinig Frenhinol, sy'n ein galluogi i rannu gwybodaeth ac arferion da ac i drafod materion pwysig gyda sefydliadau sy'n cefnogi cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mae fframwaith ar waith i hybu cydweithio, i nodi materion ac i rannu arferion da. Mae'r strwythur yng Nghymru, ac yn ehangach ar draws pedair gwlad y DU, wedi'i nodi isod:



yn mynychu **Grŵp Cyfeirio Cyfamod y Lluoedd Arfog** gan Lywodraeth y DU, i sicrhau bod arferion da a materion sy'n ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu rhannu. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y DU i sicrhau ein bod yn cydlynu polisïau, a hefyd yn adlewyrchu'r gwahanol sefyllfaoedd ledled Cymru ac mewn rhannau eraill o'r DU.

## Metrigau – Gwella'r Data a'r Dystiolaeth

Rydym yn gefnogol ers tro byd o'r gwaith – a ddechreuwyd gan y Lleng Brydeinig Frenhinol – i gynnwys cwestiwn yng Nghyfrifiad y DU am aelodaeth bresennol a blaenorol o'r Lluoedd Arfog. Ym mis Gorffennaf 2020, pasiodd Senedd y DU ddeddfwriaeth i ddiwygio'r cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, ac am y tro cyntaf bydd yn rhoi gwybodaeth ynghylch a yw rhywun wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog EMs.

Bydd hyn yn galluogi Llywodraethau a darparwyr cymorth i ddeall yn well beth yw proffil ac anghenion y gymuned o gyn-bersonél y Lluoedd Arfog.

## Arolwg Cenedlaethol o'r Boblogaeth

Ym mis Mai 2020, roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cwestiynau ynghylch gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog er mwyn gwybod pwy oedd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog o'r blaen, a phwy oedd ag aelod agos o'r teulu neu'r aelwyd sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ar hyn o bryd neu a oedd wedi gwasanaethu o'r blaen. O blith y 3,000 o ymatebwyr ar gyfer y mis:

» roedd gan **25% o'r ymatebwyr** aelod agos o'r teulu neu'r aelwyd a oedd un ai'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ar hyn o bryd neu'n gyn-filwr;

» roedd **5% o'r ymatebwyr** yn gyn-filwyr yn y Lluoedd Arfog.

Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i lywio polisïau ar draws Llywodraeth Cymru.

## Map o'r angen

# Y prif uchafbwyntiau


Mae tua **140,000** o gyn-filwyr yn byw yngNghymru.



Mae **82,000** o'r rhain yn **65** oed neu'n hŷn.

Ar 31 Mawrth 2019, roedd **19,173** iawndal a phensiwn milwrol a oedd yn cael eu priodoli i gyn-filwyr yng Nghymru.



Rhwng 2014 a 2018 **41 oed** oedd oedran cyfartalog y cyn-filwyr agyfeiriwyd at GIG Cymru i Gyn-filwyr.

Daw'r data gan Ganolfan Gogledd Lloegr ar gyfer Ymchwil i Gyn-filwyr a Theuluoedd y Lluoedd Arfog, Prifysgol Northumbria.

Ym Mhrifysgol Northumbria y mae Canolfan Gogledd Lloegr ar gyfer Ymchwil i Gyn-filwyr a Theuluoedd y Lluoedd Arfog, ac mae'n gasgliad o academyddion, darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth sydd â diddordeb mewn gwella iechyd a lles cymdeithasol cyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae'r Ganolfan wedi datblygu cyfeiriadur ar-lein o wasanaethau sydd ar gael i'r gymuned o gyn-filwyr. Mae'r prosiect Map o'r Angen yn darparu canfyddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth am y boblogaeth o gyn-filwyr.

### Map o'r Angen – Data Cymru

Ar sail y data sydd ar gael, amcangyfrifir:

- Bod tua 140,000 o gyn-filwyr yn byw yng Nghymru[1]. Amcangyfrifir bod 82,000 o gyn-filwyr sy'n hŷn na'r oedran gweithio (dros 65 oed).
- Bod tua 50,000 o gyn-filwyr o oedran gweithio yng Nghymru yn 2011. Yn 2017, amcangyfrifwyd bod y ffigur hwn yn 58,000. Felly, cynnydd o 8,000 o gyn-filwyr o oedran gweithio dros chwe blynedd.
- Bod gan Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint a Sir Benfro ganran o Gyn-filwyr o oedran gweithio sy'n uwch na 3% o gyfanswm y boblogaeth oedran gweithio. Mae'r gyfran o gyn-filwyr o oedran gweithio ar ei hisaf yn Awdurdodau Lleol Ceredigion (1.78%) a Chaerdydd (1.59%).
- Nid oes unrhyw amcangyfrifon o gyfanswm y boblogaeth o gyn-filwyr, na'r cyn-filwyr sy'n hŷn na'r oedran gweithio (65 oed a hŷn), ar lefel Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, mae ffigurau ar gael ar gyfer y rheini sy'n derbyn iawndal a phensiwn milwrol[2].
- Ar 31 Mawrth 2019, bod 19,173 iawndal a phensiwn milwrol a oedd yn cael eu priodoli i gyn-filwyr yng Nghymru. Ymysg yr Awdurdodau Lleol, mae Bro Morgannwg yn sefyll allan gyda 1,557 (8%), wedyn Rhondda Cynon Taf gyda 1,258 (7%) a Sir y Fflint gyda 1,249 (7%).

Mae canfyddiadau prosiect ymchwil Map o'r Angen yn dangos bod cymorth ar gael gan y trydydd sector mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru. Mae'r patrwm yn union yr un fath ymysg tair cangen y Lluoedd Arfog, ac mae rhai ardaloedd yng Nghymru yn sefyll allan.

Y prif ardaloedd ar gyfer cyn-filwyr **y Llynges Frenhinol** sy'n derbyn cymorth yw Bae Colwyn, Wrecsam, y Drenewydd, Llanelli, Abertawe a Chaerdydd.

Y prif ardaloedd ar gyfer cyn-filwyr **y Fyddin** sydd angen cymorth yw Caernarfon, Bangor, Bae Colwyn a'r Rhyl yn y Gogledd. Yn y De, yr ardaloedd sy'n sefyll allan yw Penfro, Caerfyrddin a'r coridor rhwng Llanelli a Chaerdydd, gan gan cynnwys Abertawe a Phontypridd.

Mae cyn-filwyr **y Llu Awyr Brenhinol** sydd angen cymorth yn dilyn patrwm tebyg i'r canghennau eraill. Fodd bynnag, mae canolbwynt o ran angen ym Merthyr Tudful sy'n llai amlwg na'r mannau eraill sydd â chyfraddau uchel.

1 Arolwg blynyddol o'r boblogaeth: Cyn-filwyr yn lluoedd arfog y DU a oedd yn byw ym Mhrydain yn 2017. https://www.gov.uk/government/statistics/annual-population-survey-uk-armed-forces-veterans-residing-in-great-britain-2017
2 Lleoliad y rheini sy'n derbyn iawndal a phensiwn y lluoedd arfog: 2019. https://www.gov.uk/government/statistics/location-of-armed-forces-pension-and-compensation-recipients-2019

Eleni, rhoesom tua £700,000 unwaith eto i GIG Cymru i Gyn-filwyr, gan alluogi'r gwasanaeth i ddarparu triniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.



# Iechyd a Lles

**Er bod y rhan fwyaf o bersonél y Lluoedd Arfog yn gadael y lluoedd yn iach ac yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu bywyd, mae gan eraill anghenion gofal iechyd cymhleth wrth iddyn nhw ddychwelyd o faes y gad neu adael y Lluoedd Arfog. Efallai na fydd yr anghenion hyn yn dod i'r amlwg am flynyddoedd ar ôl i'r unigolyn adael y Lluoedd Arfog. Rydym yn gweithio'n barhaus i sicrhau bod y ddarpariaeth gofal iechyd yn diwallu anghenion y rheini y mae angen cymorth arnynt.**

**CYFLAWNIADAU**

**£700,000**
yn cael ei ddarparu bob blwyddyn er mwyn rhoi triniaeth i gyn-filwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl

**486**
o gyn-filwyr wedi cael eu hasesu gan GIG Cymru i Gyn filwyr rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020

**12**
cais am brosthetigau i Gyn-filwyr rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020

**£85,700**
o gyllid interim wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer therapyddion cyn-filwyr hyd at fis Mawrth 2021

**14**
o sefydliadau wedi cael cymorth i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ymysg cymunedau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru

**94**
aelod o BLESMA – elusen i gyn-filwyr sydd wedi colli aelod o'r corff ac yn defnyddio gwasanaethau prosthetigau

**£113,40**
wedi cael ei fuddsoddi mewn prosthetigau newydd i gyn-filwyr yng Nghymru

**84**
o geisiadau llwyddiannus o Gymru i'r Gronfa Clyw Cyn-filwyr yn ystod 2019

**31**
o driniaethau llwybr carlam wedi cael eu darparu ar gyfer personél y Lluoedd Arfog yng Nghymru

**329**
o gyn-filwyr yn derbyn/wedi derbyn triniaeth ar gyfer camddefnyddio alcohol neu gyffuriau

## GIG Cymru i Gyn-filwyr

Eleni, rhoesom tua £700,000 unwaith eto i GIG Cymru i Gyn-filwyr, gan alluogi'r gwasanaeth i ddarparu triniaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Cafodd 795 o gyn-filwyr eu cyfeirio at y gwasanaeth rhwng mis Mawrth 2019 ac Ebrill 2020. Ers i GIG Cymru i Gyn-filwyr gael ei sefydlu yn 2010, mae wedi cael dros 5000 o atgyfeiriadau.

Y data isod ynghylch GIG Cymru i Gyn-filwyr:

- Ffigur 1. Atgyfeiriadau rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020
- Ffigur 2. Triniaeth rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020
- Ffigur 3. Asesiadau rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020

### Ffigur 1

| Nifer yr Atgyfeiriadau | 1 Ebr-Meh 2019 | 2 Gorff-Medi 2019 | 3 Hyd-Rhag 2019 | 4 Ion-Maw 2020 | Cyfanswm Terfynol |
|---|---|---|---|---|---|
| Bae Abertawe | 28 | 39 | 31 | 31 | 129 |
| Aneurin Bevan | 18 | 47 | 40 | 22 | 127 |
| Betsi Cadwaladr | 34 | 41 | 37 | 35 | 147 |
| Caerdydd a'r Fro | 16 | 24 | 29 | 18 | 87 |
| Cwm Taf Morgannwg | 44 | 40 | 40 | 40 | 164 |
| Hywel Dda | 32 | 42 | 38 | 29 | 141 |
| Cyfanswm Terfynol | 172 | 233 | 215 | 175 | 795 |

### Ffigur 2

| Y nifer sy'n cael Triniaeth | Bae Abertawe | Aneurin Bevan | Betsi Cadwaladr | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf Morgannwg | Hywel Dda | Cyfanswm Terfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebr-19 | 22 | 43 | 38 | 25 | 16 | 19 | 163 |
| Mai-19 | 20 | 40 | 51 | 25 | 17 | 20 | 173 |
| Meh-19 | 22 | 42 | 46 | 28 | 19 | 22 | 179 |
| Gorff-19 | 34 | 37 | 49 | 27 | 19 | 22 | 188 |
| Awst-19 | 33 | 33 | 45 | 23 | 29 | 19 | 182 |
| Medi-19 | 30 | 34 | 45 | 21 | 34 | 18 | 182 |
| Hyd-19 | 39 | 36 | 46 | 17 | 35 | 18 | 191 |
| Tach-19 | 36 | 37 | 46 | 20 | 37 | 15 | 191 |
| Rhag-19 | 34 | 32 | 35 | 23 | 35 | 16 | 175 |
| Ion-20 | 34 | 34 | 50 | 21 | 38 | 20 | 197 |
| Chwe-20 | 29 | 33 | 46 | 20 | 34 | 19 | 181 |
| Maw-20 | 25 | 27 | 48 | 19 | 30 | 17 | 166 |

### Ffigur 3

| Nifer yr Asesiadau a Gynhaliwyd | 1 Ebr-Meh 2019 | 2 Gorff-Medi 2019 | 3 Hyd-Rhag 2019 | 4 Ion-Maw 2020 | Cyfanswm Terfynol |
|---|---|---|---|---|---|
| Bae Abertawe | 17 | 31 | 14 | 23 | 85 |
| Aneurin Bevan | 27 | 29 | 26 | 28 | 110 |
| Betsi Cadwaladr | 38 | 21 | 34 | 27 | 120 |
| Caerdydd a'r Fro | 8 | 13 | 14 | 15 | 50 |
| Cwm Taf Morgannwg | 12 | 11 | 25 | 26 | 74 |
| Hywel Dda | 13 | 6 | 18 | 10 | 47 |
| Cyfanswm Terfynol | 115 | 111 | 131 | 129 | 486 |

Ym mis Mai 2020, darparodd Llywodraeth Cymru **gyllid interim o £85,700 i dalu am gostau staff rhwng mis Hydref 2020 a 31 Mawrth 2021, ar gyfer y 3 swydd a oedd yn arfer cael eu hariannu gan Help for Heroes**. Bydd hyn yn cynnal y capasiti i ddarparu gwasanaethau. Bydd capasiti ac anghenion gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr yn y dyfodol yn cael eu hystyried.

Ym mis Mawrth 2020, penderfynodd GIG Cymru i Gyn-filwyr ohirio asesiadau a therapi wyneb yn wyneb oherwydd pandemig Covid-19. Mae therapyddion yn parhau i gynnig cyfuniad o wasanaethau therapi i gyn-filwyr dros fideogynadledda drwy ddefnyddio 'Attend Anywhere' (neu lwyfannau eraill), cefnogi, asesu a brysbennu dros y ffôn, cyswllt wyneb yn wyneb ar gyfer rhai cyn-filwyr, a therapi cerdded a siarad (ar gyfer Anhwylder straen wedi trawma (PTSD) ac iselder). Mae'n parhau i gyfeirio at randdeiliaid eraill.

Bu GIG Cymru i Gyn-Filwyr, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, yn arwain ymchwil i **Therapi 3MDR (Dadseniteiddio a Chyfnerthu Atgofion gyda chymorth Symudiadau ar ffurf Fodiwlaidd)** a ariannwyd gan ymddiriedolaeth Forces in Mind, er mwyn ymchwilio a yw therapi 'realiti rhithwir' – gyda chymorth peiriant rhedeg – yn lleihau symptomau anhwylder straen wedi trawma ymysg cyn-filwyr sy'n gwrthsefyll triniaeth.

Mae copi llawn o'r adroddiad ar gael yn:

https://www.ncmh.info/wp-content/uploads/2020/05/Cardiff-3MDR-Study-Final-Report-with-cover-21.5.20.pdf

https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/acps.13200

## Therapïau seicolegol

Gall therapïau seicolegol, fel therapi gwybyddol ymddygiadol ac ymwybyddiaeth ofalgar, helpu'r rheini sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i barhau i ddarparu therapïau seicolegol mewn gwasanaethau oedolion, **ac ers 2018 rydym wedi darparu £4 miliwn o gyllid ychwanegol i Fyrddau Iechyd at y diben hwn**.

**Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Cynllun Cyflawni: 2019-2022**, a oedd yn amlinellu ein meysydd blaenoriaeth i weithredu arnynt. Roedd hyn yn cynnwys gwella mynediad at therapïau seicolegol, eu hansawdd a'u hamrywiaeth. Mae un cam gweithredu penodol yn gofyn i Fyrddau Iechyd barhau i helpu GIG Cymru i Gyn-filwyr i ddarparu gwasanaethau amserol a phriodol ac, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a mudiadau yn y trydydd sector, i godi ymwybyddiaeth o anghenion iechyd meddwl cyn-filwyr ymysg gweithwyr meddygol proffesiynol a'r boblogaeth yn gyffredinol.

## Cefnogi cyn-filwyr sydd wedi colli rhan o'u corff

Rydym wedi cynorthwyo cyn-filwyr sydd wedi colli aelod o'r corff (limb) wrth wasanaethu, i sicrhau bod ganddynt y prosthetigau sydd eu hangen arnynt i'w helpu i lwyddo yn eu bywyd yn y dyfodol. Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, cytunodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar **12 cais am brosthetigau ar gyfer Cyn-filwyr, ac amcangyfrifir bod hynny wedi costio £113,401**. Roedd y darpariaethau hyn yn cynnwys dyfeisiau newydd, uwchraddio a llafnau cerdded arbenigol.

Mae ein polisi **Cyn-Filwyr – Darparu Prostheteg Uwch** yn sicrhau bod cyn-filwyr yng Nghymru yn cael yr un lefel o gefnogaeth â hyn a ddarperir gan Ganolfan Adsefydlu Meddygol y Lluoedd Arfog yn Stanford Hall. Mae cyn-filwyr yng Nghymru hefyd yn gallu cael pen-glin microbrosesydd ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog, drwy ein polisi Darparu Prostheteg Uwch ar gyfer anaf y gellir ei briodoli i wasanaeth yn y Lluoedd Arfog.

**Ym mis Ebrill 2019, darparodd Llywodraeth Cymru £50,000 i ariannu hyfforddiant arbenigol ar socedi prosthetigau**. Mae hyn wedi sicrhau y gall cyn-filwyr gael y gefnogaeth barhaus sydd ei hangen arnynt yng Nghymru. Bydd hyn hefyd yn cynnig gwelliannau i ddefnyddwyr gwasanaethau craidd eraill.

Mae BLESMA: The Limbless Veterans Charity yn helpu cyn-filwyr, sydd wedi colli aelod o'r corff, i fyw bywyd annibynnol sy'n llawn boddhad. Ffigurau allweddol ar gyfer 2019/20:

» **165** o aelodau BLESMA yng Nghymru (sy'n cynnwys pawb sydd wedi colli rhan o'u corff, y rheini sy'n methu defnyddio aelod o'u corff, a gwŷr/gwragedd gweddw)

» **94** o gyn-filwyr (sydd wedi colli rhan o'u corff) sydd angen gwasanaethau prosthetigau

» **52** o gyn-filwyr sydd ag anaf y gellir ei briodoli i'w gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog

Aelodau BLESMA sy'n defnyddio gwasanaethau ym mhob un o'r Canolfannau Aelodau Artiffisial a Chyfarpar:

» **43** yng Nghaerdydd

» **24** yn Abertawe

» **23** yn Wrecsam

## Adnabod Cymuned y Lluoedd Arfog

Ar y cyd â chydweithwyr yn y GIG, roeddem wedi datblygu poster cenedlaethol i'w arddangos mewn meddygfeydd meddygon teulu ac yn y gymuned ehangach er mwyn codi rhagor o ymwybyddiaeth o bolisi Cyfamod y Lluoedd Arfog – Blaenoriaeth Gofal Iechyd i Gyn-filwyr, ac annog cyn-filwyr i ddweud pwy ydyn nhw fel bod staff meddygol yn ymwybodol o unrhyw gyflyrau sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog. **Cyhoeddwyd fersiynau electronig ym mis Mehefin 2019, er mwyn i bob practis meddyg teulu eu dangos ar sgriniau teledu neu eu hargraffu**. Anfonwyd fersiwn print arall at Hyrwyddwyr Byrddau Iechyd Lleol ym mis Hydref 2019, i sicrhau bod hyn yn cael sylw ehangach ar draws lleoliadau gofal sylfaenol.

Mae'r ffurflen GMS yn cynnwys cwestiynau am wasanaeth milwrol er mwyn gallu adnabod cyn-filwyr wrth iddyn nhw gofrestru gyda phractis meddyg teulu.

Mae'r canllawiau hefyd yn hybu'r defnydd o godau Read safonol wrth gofnodi ar systemau gwybodaeth iechyd. Pwrpas hyn yw helpu i sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu hadnabod a'u bod yn gallu cael blaenoriaeth wrth gael triniaeth os yw eu cyflwr yn deillio o'u cyfnod yn y Lluoedd Arfog, ac felly bod amser aelodau'r teulu ar restrau aros yn cael ei anrhydeddu os ydyn nhw wedi symud o ardal arall.

Disgwylir i'r canllawiau gael eu hadolygu ym mis Medi 2020.

## Y Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr

Ym mis Hydref 2019, lansiodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr Cymru. Bydd Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr Cymru yn dwyn ynghyd arbenigwyr yng nghanolfannau trydyddol Cymru sydd ag arbenigedd perthnasol a diddordeb mewn gofal i gyn-filwyr.

Bydd y Rhwydwaith yn delio â phroblemau sy'n ymwneud â chyfnod cyn-filwr yn y Lluoedd Arfog. Dim ond ar sail glinigol y bydd cyn-filwyr yn cael blaenoriaeth wrth gael triniaeth, fel gydag unrhyw glaf arall yn y GIG.

Dros y 18 mis diwethaf, mae llawer o waith wedi cael ei wneud i gyflwyno'r Rhwydwaith Cyflawni Gweithredol (ODN) newydd ar gyfer Trawma Mawr yn Ne, Canolbarth a Gorllewin Cymru. Pan fydd yr ODN yn gwbl weithredol, o dan ofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, bydd hefyd yn goruchwylio Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr Cymru. Y bwriad oedd y byddai'r ODN yn dechrau gweithredu ym mis Ebrill 2020, ond cafodd ei ohirio oherwydd Covid-19. Mae gwaith yn cael

ei wneud ar hyn o bryd i benderfynu ar ddyddiad newydd.

Bydd cysylltiad agos rhwng cleifion yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru ac aelodau cyfatebol yn Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr Lloegr, sydd ar waith yn Lerpwl, Birmingham a Stoke-on-Trent.

Bydd gwefan y Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr yn cael ei chynnal ar www.veteranswales.co.uk yn ystod y flwyddyn i ddod.

## Y Strategaeth Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol



Gwirfoddolwyr Galeri VC yn darparu cymorth

Ym mis Chwefror 2020, lansiwyd **'Clymu cymunedau: strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, a chreu cysylltiadau cymdeithasol cryfach'**. Yn y strategaeth, roeddem yn cydnabod yr heriau posibl y gallai rhai aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog eu hwynebu, gan ddefnyddio ymchwil gan sefydliadau fel y Lleng Brydeinig Frenhinol. Ar sail yr adborth yn ein Hymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr a thystiolaeth arall sy'n bodoli, gwyddom y gall profiadau fel gadael y Lluoedd Arfog, teimladau o golled neu golli gwerth, arwain at frwydr ddiddiwedd ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Yn y strategaeth, roeddem wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ychwanegol i ymgymryd â gweithgareddau penodol i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ymysg aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog.

Gan weithio gyda phartneriaid allweddol yn y sector, **cafodd grantiau gwerth £120,000 eu darparu yn ystod Gwanwyn 2020 i gyflawni'r amcanion hynny**.

### ASTUDIAETH ACHOS

### VC Gallery

**Cyn-filwyr gyda'r Gymuned** – nod y prosiect oedd darparu amgylchedd diogel ac agored i gyn-filwyr unig a/neu sy'n teimlo'n ynysig allu ymdrin â chelf a mynegi eu hunain yn greadigol.

Gwŷr/gwragedd priod personél y Lluoedd Arfog yn ardal sir Benfro, aelodau a oedd yn cael trafferth cael gafael ar y ddarpariaeth a oedd yn bodoli, a'r rheini a oedd o bosibl wedi'u heithrio'n ddigidol oedd yn cael eu targedu'n bennaf. Anogwyd unigolion i ddefnyddio eu 'llais artistig' i fynegi emosiynau, i leddfu straen ac i fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol, drwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau mewn nifer o leoliadau gwahanol

Roedd y prosiect yn estyn llaw at deuluoedd a oedd wedi symud i'r ardal ac yn cael trafferth dod yn rhan o gymdeithas. Roedd yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen i feithrin cyfeillgarwch a chysylltiadau gwerthfawr.

Cynhaliodd y prosiect 40 o sesiynau ar hyd a lled Sir Benfro (cyn COVID-19), gan gyrraedd dros 400 o gyn-filwyr o bob rhan o'r Lluoedd Arfog.

Wedi i Covid-19 ddechrau, cafodd rhywfaint o'r gweithgarwch hwn ei ailgyfeirio i helpu elusennau i ymateb i'r pandemig, gan sicrhau y byddai cymorth i'r gymuned o gyn-bersonél y Lluoedd Arfog yn gallu parhau a chael ei addasu yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin

**Unigrwydd a Theimlo'n Ynysig – Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru** – Mae digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi cael eu cynnal mewn nifer o leoliadau, gan gynnwys Aberhonddu, Sain Tathan, Cas-gwent a Hwlffordd. Cafodd y digwyddiadau eu teilwra i ddiwallu anghenion penodol teuluoedd, a'u cynnal ar sawl ffurf – gan gynnwys paned a sgwrs, bingo, cysylltu a sgwrsio, grwpiau dros y we, a chyswllt â theuluoedd ar wasgar. Llwyddodd y digwyddiadau hyn i gyrraedd bron i 300 o deuluoedd unigol, gyda llawer o deuluoedd yn mynd i fwy nag un digwyddiad.

Cynhaliwyd hefyd arolwg pedair wythnos o deuluoedd y Fyddin yng Nghymru, a'u barn am ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd wrth fod yn rhan o'r lluoedd arfog yng Nghymru. Dangosodd yr arolwg mai'r ffaith bod eu partner, sy'n aelod o'r Lluoedd Arfog, yn absennol oherwydd gofynion gwasanaeth, a diffyg mynediad at wasanaethau cymorth lleol, oedd y ffactorau a oedd yn cyfrannu fwyaf at ynysigrwydd cymdeithasol. Sefydlwyd rhaglen o grwpiau anghenion ychwanegol mewn tri lleoliad, ac mae'r rhain yn hunangynhaliol erbyn hyn.

## ASTUDIAETH ACHOS

### BLESMA

**Prosiect 'Brunch' a Chynhwysiant Digidol** – Sefydlwyd rhaglen o ddigwyddiadau amser bwyd a chymdeithasol anffurfiol i ddwyn ynghyd Aelodau BLESMA (cyn-filwyr sydd wedi colli aelod o'r corff, neu wedi anafu aelod o'r corff), eu partneriaid/gofalwyr a gwŷr/gwragedd gweddw mewn cymunedau lleol ledled Cymru.

Daeth 98 o aelodau a'u teuluoedd at ei gilydd i rannu profiadau ac i feithrin cyfeillgarwch a chysylltiadau er mwyn teimlo'n llai ynysig, a chael hyfforddiant digidol wedi'i deilwra i'w helpu i ddefnyddio BLESMA Connects – Ap newydd ar gyfer dyfeisiau symudol ac ar y we.

Roedd hyn hefyd yn eu galluogi i gael gafael ar wasanaethau ehangach ar y rhyngrwyd, gan gynnwys siopa bwyd; neu allu cysylltu â ffrindiau a theulu ar Skype neu alwadau fideo eraill.

Tystiolaeth gan un o aelodau BLESMA, Roy, o Aberdâr –

> "Rydw i'n mynd i ginio Blesma, gyda help cyllid gan Lywodraeth Cymru. Rydw i'n llenwi'r arolwg adborth yma ar gyfer Aelodau Blesma, ac mae gen i ormod o sylwadau i'w cynnwys yn y fan yma. Mae Blesma wedi fy helpu i a fy ngwraig, Diane, mewn llawer o ffyrdd. Allwn ni ddim diolch digon i Tom a Jason. Maen nhw wir wedi helpu fy lles yn ystod cyfnod tyngedfennol, ac wedi fy helpu i fynd i wahanol weithgareddau gyda Blesma dros y flwyddyn diwethaf, gan gynnwys Wythnos i Bobl Hŷn a thaith i Normandi. Mae Tom hefyd yn helpu gyda fy anghenion prostheteg, ac wedi fy helpu i gael pen-glin microbrosesydd. Mae tîm Blesma Cymru wedi cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar fy mywyd i ac ar fywyd fy ngwraig. Mae'n wych gwybod eich bod chi'n rhan o deulu ehangach, gyda'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael. Rydw i'n teimlo'n llai ynysig erbyn hyn, ac yn mwynhau cwrdd â phobl eraill sydd, fel fi, yn gweld pethau'n anodd. Rydw i'n gallu siarad â nhw a chael gwybod eu stori, ac rydyn ni'n gallu rhoi cyngor i'n gilydd am ein problemau ein hunain.

## Llwybr Atgyfeirio Carlam

Rydym yn cydnabod y gwaith gwerthfawr a wneir drwy Lwybr Carlam y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal eilaidd ac arbenigol, ac yn blaenoriaethu triniaethau i bersonél y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ond yn cael eu graddio fel milwyr 'na ellir eu hanfon ar ymgyrch am resymau meddygol' ar hyn o bryd. Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, cytunodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i gyllido **31 o driniaethau llwybr carlam, ac amcangyfrifir bod hynny wedi costio £72,473**. Roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau am driniaeth yn ymwneud ag anaf orthopedig.

## Nofio am ddim

Mae personél y Lluoedd Arfog yn cael nofio am ddim mewn pyllau nofio Awdurdodau Lleol ar hyd a lled Cymru, gan ddefnyddio Cerdyn Braint y Weinyddiaeth Amddiffyn. Lansiwyd y cynllun yn 2015, ac mae wedi cael ei ymestyn tan 2021. **Cofnodwyd cyfanswm o 8,319 o sesiynau nofio am ddim yn ystod 2019/20**.

## Y Gronfa Clyw Cyn-filwyr

Mae'r Gronfa Clyw Cyn-filwyr yn rhoi cymorth i gyn-filwyr sydd wedi colli eu clyw wrth wasanaethu, a phan na all gwasanaethau statudol fel y GIG ddiwallu eu hanghenion. Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol wedi bod yn gweinyddu'r Gronfa Clyw Cyn-filwyr ar ran Trysorlys EM ers 2015.

Cafwyd **84** o geisiadau llwyddiannus i'r gronfa yng Nghymru yn 2019, a oedd werth cyfanswm o **£284,746**[3].

## Cymorth ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau

**Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed yw Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau**. Mae'n canolbwyntio ar les meddyliol a chorfforol, a hefyd yn ystyried camddefnyddio sylweddau. Yng Nghymru, mae Byrddau Cynllunio Ardal wedi cael eu sefydlu yn ardal pob Bwrdd Iechyd. Y Byrddau sy'n gyfrifol am ddatblygu a rheoli gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. **Yn ystod 2019/20, roedd 329 o gyn-filwyr** ledled Cymru wedi cael triniaeth a chymorth.

3 Nid yw'r gronfa'n derbyn ceisiadau newydd ar hyn o bryd.

Nifer y cyn-filwyr yng Nghymru gafodd driniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau rhwng 2014-15 a 2019-20

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyn-filwyr sy'n cael/sydd wedi cael triniaeth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau neu alcohol | 306 | 345 | 295 | 292 | 355 | 329 |

*Rhifau blynyddol wedi'u haddasu er mwyn cysoni data

## Gamblo

**Mae Llywodraeth Cymru wedi hwyluso'r gwaith o restru'r Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Trin Gamblo ar wefan 'Veterans' Gateway'**. Mae hyn yn sicrhau bod pobl sy'n defnyddio'r wefan yn gallu cael gafael ar gymorth, gwybodaeth a thriniaeth os oes ganddyn nhw broblem gamblo.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Astudiaeth Iechyd a Gamblo Cyn-filwyr yn Lluoedd Arfog y DU, sy'n cael ei chynnal ym Mhrifysgol Abertawe. Yr astudiaeth hon yw'r gyntaf yn y DU i ymchwilio i brofiadau gamblo mewn sampl fawr o gyn-filwyr y Lluoedd Arfog. Mae cyn-filwyr yn dal i gael eu recriwtio ar gyfer yr astudiaeth, ac yn cael eu hannog i gymryd rhan. Bydd y cam recriwtio'n dod i ben ym mis Tachwedd 2020. Mae rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth, a sut gall cyn-filwyr gymryd rhan, ar gael yn: www.veteranshealthandgambling.org/

## Practisiau Meddygon Teulu sy'n Ystyriol o Gyn-filwyr

Mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol wedi creu Pecyn Cymorth Gofal Iechyd i Gyn-filwyr, fel adnodd i helpu practisiau meddygon teulu i wybod sut i ddelio ag anghenion gofal iechyd cyn-filwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ymchwilio i'r gwaith o ddatblygu adnodd ar gyfer Cymru, ac mae'r gwaith o'i gyflwyno ar draws Byrddau Iechyd wedi cael ei ohirio yn ystod pandemig Covid-19.

## Gofal iechyd i gyn-filwyr yn y Carchar

Mae'r **Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai** Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai yn nodi'r blaenoriaethau y mae Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, a Byrddau Iechyd wedi cytuno arnynt er mwyn gwella iechyd a lles carcharorion. Un o'r blaenoriaethau hyn yw datblygu safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ohirio oherwydd pandemig Covid-19.

Ochr yn ochr â'r gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni'r Cytundeb Partneriaeth, **mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu £1 miliwn ychwanegol y flwyddyn i ariannu gwasanaethau iechyd sylfaenol yn y carchardai**, a fydd yn cynnwys ffocws penodol ar wasanaethau iechyd meddwl.

Hefyd eleni:

» **Codi ymwybyddiaeth o'r cynllun Blaenoriaethu Triniaeth**

Yn dilyn cyhoeddi ein **canllawiau ar *Gyfamod y Lluoedd Arfog – Blaenoriaeth Gofal Iechyd i Gyn-filwyr*** ar gyfer staff y GIG ym mis Medi 2017, mae Llywodraeth Cymru – ynghyd â Hyrwyddwyr Byrddau Iechyd ac arweinwyr gweithredol sy'n gyfrifol am y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr – wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r polisi ar draws y GIG a'r gymuned ehangach.

**Arferion da:**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cynnal ei ymrwymiad i gyfamod y Lluoedd Arfog drwy gynnig gwasanaeth blaenoriaethu triniaeth ar gyfer plant a phobl ifanc y Lluoedd Arfog, sydd angen cymorth gydag iechyd meddwl a lles emosiynol gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

» **Camau i atal Hunanladdiad**

Mae'r **Strategaeth Beth am Siarad â Fi? 2** wedi arwain at fwy o bwyslais ar waith amlasiantaeth i atal hunanladdiad, gyda chynlluniau wedi'u sefydlu ym mhob rhan o Gymru. Bydd **£500,000 ychwanegol y flwyddyn** yn cael ei ddarparu i gefnogi hynny, a bydd yr arian yn cael ei fuddsoddi mewn dulliau rhanbarthol a chenedlaethol penodol i fynd i'r afael â hunanladdiad ac i atal hunan-niweidio.

» **Deintyddiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu **£1.3m ychwanegol y flwyddyn i helpu i greu 10,000 o leoedd deintyddol newydd yn y GIG ledled Cymru.** Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi comisiynu gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol ychwanegol ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys y practis yn y Fali ar Ynys Môn.


Er nad oedd hynny wedi'i anelu'n benodol at deuluoedd y Llu Awyr Brenhinol yn y Fali, mae'r teuluoedd wedi elwa o'r gwasanaethau ychwanegol a gomisiynwyd.

» **Anrhydeddu'r amser a dreuliwyd ar Restri Aros y GIG**

Yng Nghymru, rydym yn parhau i anrhydeddu'r amser a dreuliwyd ar restr aros y GIG mewn ardaloedd eraill. Os oes aelod o'r Lluoedd Arfog, neu rywun o deulu agosaf yr aelod hwnnw, ar restr aros y GIG a bod yr aelod yn cael ei anfon i ran arall o'r wlad, bydd unrhyw amser aros a gronnwyd yn cael ei gario drosodd.

Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru yn ymwybodol o'r ymrwymiad hwn.

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid unwaith eto i gefnogi plant personél y Lluoedd Arfog yng Nghymru.



# Addysg a Sgiliau

**Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y posibilrwydd y bydd pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr yn dymuno ehangu ac adeiladu ar y sgiliau maen nhw wedi'u dysgu wrth wasanaethu yn y Lluoedd Arfog.**

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r heriau y gall plant y Lluoedd Arfog eu hwynebu oherwydd swydd eu rhieni, a'r pwysau emosiynol y gall hyn ei achosi. Ar y cyd â Ffederasiynau Teuluoedd y Lluoedd Arfog a phartneriaid allweddol eraill, rydym yn mynd ati'n barhaus i geisio deall yn well beth yw anghenion teuluoedd a sut gallwn ni eu helpu.

**CYFLAWNIADAU**

**£249,891**
wedi cael ei ddarparu i ysgolion ac Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant y Lluoedd Arfog

**27**
cais llwyddiannus i gronfa Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru

**£68,550**
wedi cael ei ddarparu ar gyfer ysgoloriaethau i blant sydd wedi colli rhiant yn y Lluoedd Arfog

**£131,891**
er mwyn i bobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog, a chyn-filwyr ledled Cymru, gael cefnogaeth mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch

**10**
o unedau'r Llu Cadetiaid Cyfunol mewn ysgolion yng Nghymru

**£3.4 miliwn**
gwerth gweithgareddau Cadetiaid mewn ysgolion a'r gymuned ehangach yng Nghymru

## Cronfa Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid unwaith eto i gefnogi plant personél y Lluoedd Arfog yng Nghymru. **Llwyddodd 27 o geisiadau i gyd gan ysgolion unigol, grwpiau o ysgolion ac Awdurdodau Lleol**

**i sicrhau cyllid rhannol neu lawn, a oedd werth cyfanswm o £249,946.63**.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu rhaglen Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru (SSCE). Nod y rhaglen yw darparu'r gefnogaeth addysgol orau posibl i blant y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Mewn ymateb i Covid-19, mae SSCE Cymru hefyd wedi creu tudalen we newydd, sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor ac yn cyfeirio at sefydliadau ac adnoddau perthnasol er mwyn helpu plant y Lluoedd Arfog yn ystod y pandemig.

Eleni, lansiodd SSCE Cymru gyfres o adnoddau newydd sy'n ceisio helpu ysgolion, teuluoedd a phlant y Lluoedd Arfog. Hefyd, cynhaliodd SSCE Cymru nifer o grwpiau trafod mewn ysgolion ledled Cymru, er mwyn clywed gan blant y Lluoedd Arfog am eu profiadau o addysg yng Nghymru. Cafodd y canfyddiadau hyn eu cynnwys yn adroddiad prosiect Blwyddyn Llais Plant y Lluoedd Arfog gan Gynghrair SCiP.

**Ar y cyd â Brigâd 160 (Cymru) – Pencadlys, mae SSCE Cymru wedi sicrhau cyllid ar gyfer pedwar Swyddog Cyswllt Rhanbarthol mewn Ysgolion ar gyfer prosiect dwy flynedd.** Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar helpu ysgolion i ddeall anghenion plant y Lluoedd Arfog, ac i wreiddio gweithgareddau i sicrhau systemau cymorth cynaliadwy.

## Casglu data

Mae gwaith yn cael ei wneud i ystyried opsiynau ar gyfer casglu data ynghylch plant y Lluoedd Arfog mewn ysgolion yng Nghymru.

Drwy gasglu'r data hyn, bydd modd deall yn well beth yw eu lefelau cyrhaeddiad a'u gofynion addysgol, er mwyn diwallu eu hanghenion yn well.



## Cynllun Ymrwymiad Addysg Bellach ac Addysg Uwch

**Cyfrannodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £131,891 ym mlwyddyn ariannol 2018-19** tuag at y Cynllun Addysg Bellach ac Addysg Uwch, sy'n galluogi pobl ledled Cymru sy'n gadael y Lluoedd Arfog i elwa o addysg bellach/uwch.

## Cynllun Ysgoloriaeth Profedigaeth y Lluoedd Arfog

Yng Nghymru, mae Cynllun Ysgoloriaeth Profedigaeth y Lluoedd Arfog yn cynnig ysgoloriaeth i blant y rheini sydd wedi marw wrth wasanaethu eu gwlad, er mwyn rhoi hwb i'r plant mewn bywyd. **Ym mlwyddyn ariannol 2018-19, cyfrannodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £68,550 i gefnogi myfyrwyr ar y cynllun hwn.**

## Plant y Lluoedd Arfog a derbyn i ysgolion

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn cael ei adolygu'n barhaus, ond mae'r gwaith wedi cael ei ohirio oherwydd Covid-19.

## Rhaglen Cadetiaid yng Nghymru

Daeth Cam 2 y Rhaglen Ehangu Cadetiaid i ben ym mis Mawrth, ar ôl cyrraedd y targed cenedlaethol ar lefel y DU – sef 500 o unedau'r Llu Cadetiaid Cyfunol mewn ysgolion. **Sefydlwyd pum Uned Cadetiaid newydd mewn ysgolion a Cholegau yng Nghymru**, gan wneud cyfanswm o 10 uned o'r fath yng Nghymru. Mae'r astudiaeth gan yr Athrofa Effaith Gymdeithasol ac Arloesi (ISII) ym Mhrifysgol Northampton wedi ailgadarnhau'n ddiweddar y manteision i ddisgyblion wrth fynychu Unedau Cadetiaid mewn ysgolion ac Unedau Cadetiaid yn y gymuned.

Hefyd, mae'r Athrofa wedi cyfrifo bod **cymryd rhan mewn gweithgareddau Cadetiaid mewn ysgolion ac mewn unedau Cadetiaid yn y gymuned ehangach werth £3.4 miliwn** yng Nghymru, a bod gweithgarwch Gwirfoddolwyr Oedolion y Llu Cadetiaid werth £20 miliwn.

Hefyd eleni:

» Sefydlwyd Hyb Cymru Cynghrair SCiP

Mae Cynghrair SCiP yn hyrwyddo datblygiad plant personél y Lluoedd Arfog (Plant y Lluoedd Arfog), er mwyn iddyn nhw allu camu ymlaen yn wybodus ac yn hyderus drwy addysg bellach ac addysg uwch i fywyd a gyrfa ffyniannus fel oedolion.

» Anghenion Dysgu Ychwanegol

Bydd system newydd ar gyfer cefnogi dysgwyr – gan gynnwys plant y Lluoedd Arfog – sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei rhoi ar waith fesul cam o fis Medi 2021 ymlaen. Bydd y Cod anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys canllawiau penodol sy'n ymwneud â phlant y Lluoedd Arfog sydd ag anghenion o'r fath.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £10 miliwn i helpu Awdurdodau Lleol i sicrhau'r llety sydd ei angen.



# Tai

**Cydnabyddir bod cael llety fforddiadwy addas wrth adael y Lluoedd Arfog yn hollbwysig er mwyn i'r broses o adael fod yn llwyddiannus.**

Ar y cyd â'n partneriaid, byddwn ni'n parhau i sicrhau bod y ddarpariaeth dai yn diwallu anghenion cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

## Cymorth ar gyfer Covid-19

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £10 miliwn i helpu Awdurdodau Lleol i sicrhau'r llety sydd ei angen er mwyn gwneud yn siŵr bod y rheini sydd heb gartref yn gallu cael eu gwarchod a'u cefnogi, a'u bod yn gallu hunanynysu os oes angen.

Ers dechrau'r cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19, mae dros 800 o bobl a oedd yn arfer cysgu allan, mewn llety dros dro amhriodol neu'n mynd o soffa i soffa, wedi cael lloches a chymorth i'w cadw'n ddiogel.

Mae swyddogion yn dal i weithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol i ganfod a sicrhau pob math o lety, ac i hwyluso lefelau priodol o gefnogaeth er mwyn rhoi llety i bobl sydd mewn sefyllfa fregus a phobl sydd wedi'u dadleoli, gan gynnwys pobl o'r gymuned o gyn-bersonél y Lluoedd Arfog.

Yn ystod cam nesaf ein hymateb, **bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi hyd at £50 miliwn** miliwn i weddnewid gwasanaethau a sicrhau bod y rheini mewn llety dros dro yn gallu symud ymlaen i lety cynaliadwy hirdymor, ac i sicrhau bod opsiynau addas ar gael sy'n rhoi urddas i'r rheini sy'n wynebu digartrefedd yn y dyfodol, gan gynnwys pobl o'r gymuned o gyn-bersonél y Lluoedd Arfog.

## Cymorth Prynu



Mae cyn-filwyr yn cael statws blaenoriaeth yng nghynllun Cymorth Prynu Llywodraeth Cymru.

Mae gwŷr/gwragedd gweddw personél sydd wedi cael eu lladd yn y Lluoedd Arfog yn gymwys ar gyfer y cynllun hefyd.

Ledled Cymru, mae Pwyntiau Cyswllt Unigol y Lluoedd Arfog ar gael ym mhob un o 59 o safleoedd y Ganolfan Byd Gwaith, ac maen nhw'n cael eu cefnogi gan Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog yr ardal a Hyrwyddwr Cymru.



# Buddion a Chyllid

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r heriau y gall pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr eu hwynebu wrth geisio cael buddion y mae ganddynt hawl iddynt.

Rydym yn gweithio'n barhaus i sicrhau bod y broses hon mor syml â phosibl.

**CYFLAWNIADAU**

**50%**
o ostyngiad yn y dreth gyngor i bersonél y Lluoedd Arfog ar eu hail gartrefi

**59**
o Bwyntiau Cyswllt Unigol y Lluoedd Arfog yn yr Adran Gwaith a Phensiynau ledled Cymru

**27,400**
o aelodau o gynllun Cerdyn Disgownt y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru



## Cynnig Gofal Plant Di-dâl

Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod gofal plant yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio yng Nghymru.

Drwy ein Cynnig Gofal Plant sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, rydym yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer rhieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Mae'r cymorth hwn ar gael ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru, a gall rhieni sy'n gweithio fanteisio arno.

## Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru yn sicrhau bod darpariaeth ar gael ar gyfer cyn-filwyr, personél y lluoedd arfog a'u teuluoedd sydd angen cyngor a chefnogaeth.

**Ledled Cymru, mae Pwyntiau Cyswllt Unigol y Lluoedd Arfog ar gael ym mhob un o 59 o safleoedd y Ganolfan Byd Gwaith, ac maen nhw'n cael eu cefnogi gan Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog yr ardal a Hyrwyddwr Cymru.**

Yn ogystal â'r ystod lawn o wasanaethau presennol sydd ar gael gan y Ganolfan Byd Gwaith, maen nhw'n cynnig help ychwanegol i gymuned y Lluoedd Arfog gael gafael ar fuddion a dod o hyd i swydd, ac fel porth i sefydliadau a gwasanaethau cymorth eraill.

### ASTUDIAETH ACHOS

Daeth y tîm Cymunedau am Waith yn Nwyrain Cymru o hyd i gyn-filwr a oedd wedi gwasanaethu yn Affganistan, ac wedi cael ei ryddhau am resymau meddygol ar ôl cael diagnosis o anhwylder straen wedi trawma.

Roedd yn cael cymorth seiciatrig a newydd gwblhau rhaglen Methadon. Roedd yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Thaliad Annibyniaeth Personol, ac roedd ei bartner hefyd yn cael Lwfans Gofalwr am ofalu amdano.

Gan fabwysiadu dull gweithredu gyda chefnogaeth ei Seiciatrydd, bu'r Hyrwyddwr yn cydweithio â'r cyn-filwr ac yn ei helpu dros fisoedd lawer, a dywedodd y cyn-filwr yn y pen draw mai dychwelyd i fyd gwaith fyddai'r ffordd orau ganddo o symud ymlaen. Gan fod ganddo ddiddordeb mewn gwaith tynnu asbestos, trefnodd yr Hyrwyddwr fod cyrsiau hyfforddiant meddygol ac asbestos yn cael eu hariannu ar ei gyfer, a llwyddodd i basio'r ddau.

Gyda'i gilydd daethant o hyd i gyfleoedd gwaith addas, gyda'r Hyrwyddwr yn rhoi cyngor ac arweiniad ar y broses o wneud cais am swydd a thechnegau cyf-weld. Trefnwyd cerdyn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu ar ei gyfer hefyd a, drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, llwyddwyd i dalu am yr offer arbenigol yr oedd ei angen arno.

Ers hynny mae wedi dechrau gweithio, ac nid oes angen iddo ef na'i bartner hawlio budd-dal mwyach. Maent wedi dweud eu bod wrth eu bodd gyda'r gefnogaeth sydd ar gael, a phan ofynnwyd iddynt beth arall y gellid ei wneud i wella'r gefnogaeth, "dim byd o gwbl" oedd yr ateb.

## Cludiant

Mae gan gyn-filwyr sy'n cael budd-dal o dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn hawl i gael bathodyn glas. Roedd rheoliadau diweddar wedi ymestyn y cymhwystra ar gyfer cael bathodyn er mwyn cynnwys cyn-filwyr sydd â nam gwybyddol pan fyddant yn derbyn y budd-dal perthnasol.

Mae cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol yn gymwys i deithio ar fysiau am bris rhatach. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymestyn yr hawl i gael cerdyn teithio'n rhatach ar fws yn 2011, yn benodol er mwyn cynnwys y rheini sy'n cael Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog.

Hefyd eleni:

» **Diystyru'r Cynllun Pensiwn Anabledd Rhyfel a Chynllun Iawndal y Lluoedd Arfog**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddiystyru taliadau'r ddau gynllun hyn yn y prawf modd ar gyfer gofal cymdeithasol.

» **Rhoi cymorth gyda'r dreth gyngor**

Yng Nghymru, bydd unrhyw un sy'n cael pensiwn anabledd rhyfel, cynllun iawndal y Lluoedd Arfog neu bensiwn rhyfel gwraig weddw/gŵr gweddw/partner sifil yn cael £10 yr wythnos o incwm a ddiystyrir wrth gyfrifo hawl ar gyfer cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.

» **Defnyddio disgownt y dreth gyngor**

Pan fydd aelod o'r Lluoedd Arfog yn defnyddio Llety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog ym Mhrydain fel ei brif gartref, ond yn berchen ar gartref wedi'i ddodrefnu yn rhywle arall (er enghraifft: i'w ddefnyddio ar benwythnosau neu pan fydd ar wyliau o'r Lluoedd Arfog), **mae ganddo hawl i gael gostyngiad o 50% ar y dreth gyngor ar gyfer yr eiddo hwnnw.**

» **Hyrwyddo Cerdyn Disgownt yWeinyddiaeth Amddiffyn**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu ymgyrch ymwybyddiaeth yn y gorffennol** i hyrwyddo manteision Cerdyn Braint y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac i sicrhau bod mwy o bersonél y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd a chyn-filwyr yn ymwybodol o'r manteision sydd ar gael.




Mae'r manteision hyn yn cynnwys gostyngiadau, ar-lein ac ar y stryd fawr, mewn siopau, cyfleusterau hamdden a lleoliadau eraill.

**Hyd yma, mae 27,400 o aelodau yng Nghymru, ac ychydig dros 17,000 yn berchen ar gerdyn.**

Rydym wedi parhau i hyrwyddo'r cerdyn yng nghymuned y Lluoedd Arfog.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllid pellach ar gyfer swyddi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog ledled Cymru, er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith i wella ymwybyddiaeth o'r Cyfamod.



# Cymorth wrth ddychwelyd i fywyd allan o'r Lluoedd Arfog

**Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn llwyddo i wneud hynny'n ddidrafferth, ac yn ailymuno â bywyd cymunedol yn effeithiol. Mae cael y gefnogaeth iawn wrth ddychwelyd i fywyd allan o'r Lluoedd Arfog yn hanfodol er mwyn gwneud hynny'n llwyddiannus – ac mae'n rhywbeth rydym yn mynd ati i roi sylw iddo, gan weithio ar y cyd â'n partneriaid allweddol i sicrhau bod pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd ac yn dychwelyd i Gymru yn gallu cael gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael ar lefel leol.**

**CYFLAWNIADAU**

**11** o grantiau a oedd werth **£279,000** i adnewyddu canolfannau cymunedol i gyn-filwyr

**£1m** o grantiau wedi'u darparu yng Nghymru gan gronfa ymddiriedolaeth y Cyfamod er mwyn chwalu rhwystrau i fywyd teuluol

**£910,000** wedi'i ddarparu o dan y rhaglen Llwybrau Cadarnhaol

**£275,000** wedi'i gyhoeddi i ariannu swyddi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog

**37** o grantiau wedi'u dyfarnu yng Nghymru ar gyfer prosiectau lleol, a oedd werth cyfanswm o **£510,676**

## Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllid pellach ar gyfer swyddi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog ledled Cymru, er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith i wella ymwybyddiaeth o'r Cyfamod. **Mae £275,000 y flwyddyn wedi cael ei glustnodi am ddwy flynedd o fis Ebrill 2021 ymlaen.**

Rydym wedi sefydlu system adrodd newydd drwy Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog, sy'n sicrhau bod fforymau rhanbarthol y Lluoedd Arfog yn gallu rhoi adborth ar arferion gorau ac ar elfennau sy'n peri pryder, er mwyn i Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog eu hystyried.

## Diweddariad ar yr Ymarfer Cwmpasu

Roedd Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr Cymru – a ddechreuodd ym mis Hydref 2018 – yn ymgynghoriad am flwyddyn gyda'r gymuned o gyn-bersonél y Lluoedd Arfog, er mwyn dod o hyd i'r bylchau mewn gwasanaethau iddyn nhw a'u teuluoedd yng Nghymru. Eleni gwelsom argymhellion y gwaith hwnnw'n cael sylw. Mae'r cynnydd hyd yma yn cynnwys y canlynol:

» Rydym wedi dechrau gweithio gyda'r Bartneriaeth Newid Gyrfa, y Weinyddiaeth Amddiffyn a phartneriaid yn y sector i ystyried sut gallwn ni wella a chefnogi'r darpariaethau presennol ar gyfer pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog ac yn dod i Gymru, **gan gynnwys canllawiau adsefydlu sy'n benodol i Gymru**;

» **Grant unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol** sy'n cael ei dalu unwaith ar gyfer sefydliadau cymorth;

» Diweddaru 'Veterans' Gateway' gyda mwy o wasanaethau sy'n benodol i Gymru.

## Cyfiawnder Troseddol

Un enghraifft allweddol o'r gwaith partneriaeth yw'r prosiect **Cefnogi Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog i Groesi'r Bont (SToMP)** Sefydlwyd y prosiect i ddarparu dull partneriaeth ar lefel system gyfan i helpu Cyn-bersonél y Lluoedd Arfog sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.


I gefnogi hyn, mae rhwydwaith o hyrwyddwyr wedi cael ei sefydlu ledled Cymru, yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, yng Nghwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ac mewn llawer o ddalfeydd yr Heddlu.

> Eleni bu SToMP yn helpu John, cyn-bersonél o'r Lluoedd Arfog, i gael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl yng Nghaerdydd pan gafodd ei ryddhau o'r carchar. Ers hynny, mae wedi gallu dod o hyd i le addas i fyw a dod o hyd i gyfleoedd gwaith sy'n golygu ei fod yn llai tebygol o droseddu yn y dyfodol.

## Diweddaru gwybodaeth ar 'Veterans' Gateway'

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Phrifysgol Northumbria i ddiweddaru'r **Cyfeiriadur Gwasanaethau i Gyn-filwyr a Theuluoedd** drwy 'Veterans' Gateway', i sicrhau bod gwybodaeth am gefnogaeth leol – fel hybiau a grwpiau cymorth y Lluoedd Arfog – ar gael, yn gyfredol ac yn weladwy.

Mae 'Veterans' Gateway' wedi parhau i roi cefnogaeth i'r gymuned o gyn-bersonél y Lluoedd Arfog yng Nghymru.




| Nifer defnyddiwr wefan a sesiynau | | |
|---|---|---|
| | Defnyddiwr | Sesiynau |
| Cymru | 10,546 | 15,129 |

## Porth Lleoliad Cyn-filwyr a Mannau Problemus

| Dinas | Defnyddiwr | Sesiynau |
|---|---|---|
| Caerdydd | 2,566 | 3,650 |
| Casnewydd | 639 | 781 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | 545 | 670 |
| Pontypridd | 535 | 2,190 |
| Caerffili | 408 | 503 |
| Castell-Nedd | 358 | 472 |
| Cwmbran | 316 | 404 |
| Llanelli | 311 | 402 |
| Wrecsam | 267 | 330 |
| Y Bari | 262 | 347 |
| Eraill | 4,339 | 5,380 |
| Cyfanwsm | 10,546 | 15,129 |

Rydym yn parhau i hyrwyddo 'Veterans' Gateway' drwy ein cyhoeddiadau a drwy gydweithio â'n partneriaid. Mae'r diagramau uchod yn dangos lleoliad a lefel gweithgarwch defnyddwyr o ran cael gafael ar wybodaeth a chefnogaeth ar amrywiaeth o bynciau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r data a gafwyd gan y Map o'r Angen gan Brifysgol Northumbria, ac yn tynnu sylw at ardaloedd daearyddol ac anghenion penodol cyn-filwyr a'u teuluoedd a fydd yn cael eu targedu gan Grwpiau Gweithredu thematig yr Ymarfer Cwmpasu wrth symud ymlaen.

Cynhaliodd Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr brosiect lleihau ynysigrwydd er mwyn cefnogi cyn-filwyr a gofalwyr. Rhoddwyd cymorth i 56 o gyn-filwyr/gofalwyr, gyda dros 300 galwad/cyswllt. Treuliodd y prosiect 16 awr yn ysbyty Tywysoges Cymru yn cynnal gwasanaethau allgymorth (cyn y cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19), a rhoddodd 38 o ddyfeisiau tabled digidol i gyn-filwyr er mwyn iddyn nhw gadw mewn cysylltiad â'r teulu yn ystod y cyfyngiadau symud.

## Cefnogi'r rheini sy'n gweithio gyda'r gymuned o gyn-bersonél y Lluoedd Arfog

Mae cyllid Llywodraeth Cymru eleni wedi cefnogi amrywiol brosiectau er mwyn rhoi cymorth i gymuned y Lluoedd Arfog, gan gynnwys Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr:

## Y Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog

Dechreuodd y Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog gefnogi cleientiaid ym mis Hydref 2019 yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, sydd fwyaf tebygol o wynebu heriau wrth adael y Lluoedd Arfog. Yng Nghymru, mae'r Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog, er mwyn cydweithio â Llywodraeth Leol a'r trydydd sector i ddod o hyd i'r gefnogaeth fwyaf priodol sydd ar gael.

**Mae'r Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog wedi helpu dros 180 o gleientiaid**, gyda nifer ohonynt yn gadael y Lluoedd Arfog ar ôl cael eu hanfon i Gymru am gyfnod, neu'n gobeithio ailgartrefu yng Nghymru ar ôl gadael.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog i hwyluso cysylltiadau rhwng y gwasanaeth a phartneriaid yn y sector yng Nghymru.

## Cymorth i Deuluoedd

I gydnabod y gwahaniaeth rhwng y polisïau sy'n bodoli ar draws holl wledydd y DU, rydym wedi cyhoeddi ein dogfen Croeso i Gymru ar ei newydd wedd. Mae'r ddogfen yn cynnwys manylion cyfredol am y gefnogaeth sydd ar waith yng Nghymru.

## Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog[4]

Mae Ymddiriedolaeth y Cyfamod yn parhau i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, drwy ddarparu prosiectau uchelgeisiol ar raddfa fawr sy'n newid y ffordd maen nhw'n mynd ati i ddarparu gwasanaethau, hyd at grantiau lleol llai sy'n hybu cydweithio cymunedol. Dyma rai enghreifftiau:

### Newid Cam

Mae Newid Cam yn wasanaeth mentora cymheiriaid. Ym mis Ebrill 2019, dechreuodd gyflwyno prosiect **Y Camau Nesaf** a ariennir gan raglen Mynd i'r Afael â Straen Difrifol gan Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog. Nod y prosiect oedd cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth sy'n wynebu heriau difrifol, sicrhau newid tymor hir, a gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw strategaethau hunanreoli cadarn.

Cafodd y prosiect ei gyflwyno gan gyn-filwyr, yn dilyn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau partner.

Yn ystod y prosiect, gwnaed, **902 o atgyfeiriadau** i bartneriaid portffolio, a chafodd **40% o ddefnyddwyr gwasanaeth eu cyfeirio at 5 neu fwy o sefydliadau partner.**

- **dywedodd 42.2% o ddefnyddwyr gwasanaeth fod iechyd meddwl a straen ariannol yn bryderon allweddol**
- **cyfeiriodd 42.4% at iechyd meddwl ac ynysigrwydd cymdeithasol**
- **dywedodd 42.8% fod eu lefelau straen ac iechyd meddwl yn her.** Anhwylder straen wedi trawma oedd y ffactor mwyaf cyson wrth gyfeirio, gyda **132 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gofyn am help gyda thrawma a oedd yn gysylltiedig â'u gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog.**

Ar ddechrau pandemig Covid-19, fe addasodd y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod cyn-filwyr yn dal yn gallu cael gafael ar gymorth.

**Canolfannau cymunedol i gyn-filwyr.** Roedd y rhaglen gyllid, a oedd werth £3 miliwn, wedi ariannu gwaith adnewyddu a gwelliannau i ganolfannau cymunedol ar gyfer cyn-filwyr.

4 Mae gwybodaeth am Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog ar gael yn: https://www.covenantfund.org.uk/

## CYMDEITHAS Y LLU AWYR BRENHINOL – LLANGOLLEN

Adeiladwyd Canolfan Gymunedol Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol yn Llangollen yn 1965, ac roedd angen gwneud gwaith trwsio a chynnal a chadw ar yr adeilad. Roedd y ganolfan wedi dod yn ganolbwynt lle byddai'r naill genhedlaeth ar ôl y llall yn dod at ei gilydd ac yn cymdeithasu – ac i rai, y sesiynau Bingo ddwywaith yr wythnos oedd yr unig gyswllt cymdeithasol roedden nhw'n ei gael y tu allan i'w cartrefi.

Bu aelodau Pwyllgor y Gymdeithas yn cydweithio i wneud cais am gyllid o £29,505.00 gan Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog, o dan y rhaglen Canolfannau Cymunedol i Gyn-filwyr. Roedden nhw wrth eu bodd bod yr Ymddiriedolwyr wedi cymeradwyo eu cais gerbron cyfarfod mis Awst y bwrdd, a hynny fel mater brys, oherwydd doedd dim modd agor yr adeilad ac roedd yn cael ei ystyried yn anniogel. Cwblhawyd y gwaith mewn ychydig llai na mis, a chafodd y to newydd ei gwblhau ym mis Medi 2019.

Roedd y grant gan yr Ymddiriedolaeth wir yn achubiaeth i'r Gangen meddai Sheena

Ar ran Cymdeithas ac aelodau Cangen Llangollen o'r Llu Awyr Brenhinol, hoffem ddiolch o galon i'r Ymddiriedolwyr yn Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog am roi'r grant yma. Hebddo, ni fyddem wedi gallu ailagor na buddsoddi ein harian mewn gwaith adnewyddu a gwelliannau pellach i'n haelodau eu mwynhau.

## Rhaglenni Ymddiriedolaeth y Cyfamod 2020/21

**6**
Grantiau 'Cael Gwared ar Rwystrau i Fywyd Teuluol' yng Nghymru, cyfanswm:
**£1,030,000**

**37**
Grantiau Lleol Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru, cyfanswm:
**£510,676**



**14**
Grantiau a rhoddwyd gan Llwybrau Cadarnhaol yn 2019/20, cyfanswm:
**£910,000**

**11**
Grantiau Canolfannau Cymunedol Cyn-filwyr, cyfanswm:
**£279,044**

Gwybodaeth am Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog:
https://www.covenantfund.org.uk/

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Ymrwymiad Covid er mwyn cynnig cyngor bobl a'u helpu i ddod o hyd i swydd, i fod yn hunangyflogedig neu i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, gyda chyfleoedd cyflogi i gyflogwyr.



# Cyflogaeth a Sgiliau

**Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfoeth o sgiliau a phrofiadau y mae personél y Lluoedd Arfog yn eu cynnig i'r gweithle. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i godi ymwybyddiaeth o'r manteision wrth gyflogi cyn-bersonél y Lluoedd Arfog.**

## Cwmpasu – Grŵp Gweithredu ar Gyflogaeth

Fel rhan o'r Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr, rydym wedi sefydlu Grŵp Gweithredu newydd ar Gyflogaeth i helpu i wella'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer cyflogaeth i gymuned y Lluoedd Arfog. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys elusennau, asiantaethau statudol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Pwyslais y grŵp yw cefnogi unigolion a chyflogwyr a chydlynu darparu gwasanaeth. Mae'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys digwyddiad sy'n canolbwyntio ar Gyflogwyr.

## Cynllun Symud Ymlaen i Fyd Gwaith a Chynllun Gwarantu Cyfweliad (GFIE a GIS)

Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU i roi cynlluniau GFIE a GIS ar waith yn Llywodraeth Cymru. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn ystod Gwanwyn 2021.

## Swyddi i Deuluoedd y Lluoedd Arfog

Ym mis Hydref 2019, fe wnaethom lansio gwasanaeth Swyddi i Deuluoedd y Lluoedd Arfog, ar y cyd â'r Ffederasiynau Teuluoedd yng Nghymru. Swyddi i Deuluoedd y Lluoedd Arfog yw'r lle i ddod o hyd i hyfforddiant a swydd ar gyfer aelodau teulu personél Lluoedd Arfog y DU sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, ac rydym wedi hyrwyddo'r gwasanaeth ymhlith yr holl bartneriaid a fforymau rhanbarthol.

## Gweithio gyda Busnes yn y Gymuned Cymru

Rydym wedi parhau â'n gwaith ar gyflogaeth gyda Busnes yn y Gymuned. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu **Atodiad y Pecyn Cymorth i Gyflogwyr** ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog, a bydd yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn 2020.

## Cefnogi'r rheini y mae Covid-19 yn effeithio arnynt

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Ymrwymiad Covid er mwyn cynnig cyngor i bobl a'u helpu i ddod o hyd i swydd, i fod yn hunangyflogedig neu i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, gyda chyfleoedd cyflogi i gyflogwyr. Pwrpas hyn yn bennaf yw helpu unigolion sydd wedi dioddef fwyaf yn sgil Covid-19.

Mae Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru eisoes wedi awgrymu y bydd **Llywodraeth Cymru yn defnyddio hyd at £40m o Gyllid Cadernid Economaidd ar gyfer y cymorth hwn.**

## Cymru'n Gweithio

Rhaglen sy'n cael ei darparu gan Gyrfa Cymru. Mae Cymru'n Gweithio yn cynnig cymorth i ddod o hyd i swydd, i wella sgiliau drwy gyrsiau a hyfforddiant, ac i ddod o hyd i gyfleoedd cyllid. Mae Cymru'n Gweithio yn rhan o Grwpiau Gweithredu'r Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr, ac wedi bod yn gweithio gyda darparwyr cymorth y Lluoedd Arfog i hyrwyddo eu gwasanaethau, ac i roi gwybod i gyn-filwyr am y cymorth sydd ar gael yng Nghymru.

## Bwrdd Hyfforddi Prydain

Eleni, dechreuodd Bwrdd Hyfforddi Prydain y prosiect 'Positive Direction', gyda'r nodau canlynol: cynnig ffordd fwy cydgysylltiedig o ymgysylltu â chyflogwyr; annog cyflogwyr i gefnogi cyn-filwyr/aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn drwy leoliadau gwaith; helpu partneriaid a gwŷr a gwragedd priod i ddatblygu yn eu gyrfa; a darparu sgiliau a hyfforddiant i sicrhau bod buddiolwyr yn barod ar gyfer gyrfa newydd.

Yn ystod y prosiect, cysylltwyd â 1284 o gyflogwyr, gan gynnwys cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Cafodd **22** o bobl gymorth drwy'r prosiect.

**Dyfarnwyd 62 o gymwysterau** i gyd (3 i bob person ar gyfartaledd), gan gynnwys y pynciau canlynol sy'n benodol i sector: Rheoli cyfleusterau, Logisteg, ac Addysg a Hyfforddiant.

Cafodd pawb gyfle i gael eu cyf-weld gan gyflogwyr priodol a/neu i gymryd rhan mewn lleoliadau gwaith. O blith y 22 a gymerodd ran, **mae 15 bellach mewn gwaith a 4 yn hunangyflogedig.**

## Busnes Cymru

Busnes Cymru yw'r gwasanaeth cymorth i fusnesau gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ariannu'n llawn ac yn helpu pobl i sefydlu, rhedeg ac ehangu eu busnesau eu hunain.

### ASTUDIAETH ACHOS: TODDLE BORN WILD

Ar ôl treulio 9 mlynedd fel Swyddog yn y Lluoedd Arfog (y Llu Awyr Brenhinol), penderfynodd Hannah Saunders adael a sefydlu ei busnes gofal croen ei hun: "Roeddwn i'n anturus iawn cyn cael fy mab. A doedd y ffaith fod gen i fabi ddim yn golygu mod i eisiau aros yn y tŷ drwy'r amser mwyaf sydyn. Ond, roedd gwefusau fy mab yn sychu a chracio'n ofnadwy, yn enwedig yn y gaeaf rydyn ni'n ei gael ym Mhrydain. Felly, fe wnes i ddechrau edrych i weld beth oedd ar gael, a doeddwn i ddim yn gallu dod o hyd i unrhyw beth addas ar y farchnad. Yna, dyma benderfynu gwneud balm gwefusau fy hun, yn fy nghegin, gyda chynhwysion naturiol. Ar ôl rhoi sawl cynnig arni, fe wnes i lwyddo yn y diwedd i ddod o hyd i rysáit oedd yn gweithio!"

Ar ôl cael benthyciad dechrau busnes drwy X-Forces, cysylltodd Hannah â Busnes Cymru. Mae'r cynghorwyr busnes yn Busnes Cymru wedi'i helpu i sefydlu'r busnes, i greu cynllun busnes, i sicrhau cyllid ac i ystyried cyfleoedd i fanteisio ar farchnadoedd yr UE, UDA ac Awstralia.

Lansiwyd Toddle – Born Wild yn 2018 yn Hyb Menter Busnes Cymru yn Wrecsam, ac mae wedi mynd o nerth i nerth ers hynny, gan wneud cynnyrch i deuluoedd sy'n mwynhau'r awyr agored ac sydd eisiau gwarchod a gofalu am eu hanturwyr bach.

Cyfrannodd Llywodraeth Cymru yn llawn at ddigwyddiadau coffa D-Day 75 yng Nghymru, yn y DU ac ar hyd a lled y byd.



# Coffáu

**Mae Llywodraeth Cymru yn falch o'n cenedl fywiog sydd â'i hiaith, ei threftadaeth a'i hunaniaeth ddiwylliannol ei hun. Mae hyn yn cynnwys traddodiad milwrol balch.**

Mae ein Lluoedd Arfog yn dal i wneud cyfraniad enfawr at y cymunedau lle maen nhw'n byw ac yn ymgartrefu. Rydym yn anrhydeddu ac yn cydnabod eu haberth ar faes y gad.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl gefnogol o ddigwyddiadau Coffa ledled Cymru, ac fel ffordd o ddiolch i gymuned ehangach y Lluoedd Arfog, mae'n darparu **£20,000 y flwyddyn i gefnogi digwyddiad sy'n rhan o Ddiwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yng Nghymru.**

## D-Day 75

Cyfrannodd Llywodraeth Cymru yn llawn at ddigwyddiadau coffa D-Day 75 yng Nghymru, yn y DU ac ar hyd a lled y byd.

Roedd Covid-19 wedi tarfu ar y digwyddiadau coffa mawr a oedd wedi'u trefnu ar gyfer Diwrnod VE 75, a bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod yr achlysur yn cael ei gydnabod mewn ffordd a oedd yn talu teyrnged i'r genhedlaeth a welodd fuddugoliaeth yn Ewrop.

## Diwrnod VE 75

Roedd Covid-19 wedi tarfu ar y digwyddiadau coffa mawr a oedd wedi'u trefnu ar gyfer Diwrnod VE 75, a bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod yr achlysur yn cael ei gydnabod mewn ffordd a oedd yn talu teyrnged i'r genhedlaeth a welodd fuddugoliaeth yn Ewrop.

Bu'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol yn cymryd rhan mewn nifer o alwadau fideo i gyn-filwyr yr Ail Ryfel Byd, gan dalu teyrnged i'w gwasanaeth a gwrando ar eu profiadau.

Hefyd, bu Cymru yn cymryd rhan mewn digwyddiad hedfan heibio seremonïol gan awyrennau'r Llu Awyr Brenhinol ar hyd a lled y DU i nodi Diwrnod VE.



Llun Y Lleng Brydeinig Frenhinol 'Remember Together'

## S'Hertogenbosch

Yn ystod penwythnos 26-27 Hydref 2019, teithiodd y Prif Weinidog i'r Iseldiroedd i gymryd rhan mewn dathliadau i nodi 75 mlynedd ers i s'Hertogenbosch, dinas yn yr Iseldiroedd, gael ei rhyddhau.

Cafodd y ddinas ei rhyddhau gan Adran 53 (Cymreig) yn 1944, ac ymunodd y Prif Weinidog â chyn-filwyr a ffigurau blaenllaw ar gyfer penwythnos o ddigwyddiadau ingol.



Llun - Y Lleng Brydeinig Frenhinol

## Cymru'n Cofio

Daeth rhaglen fframwaith coffáu Llywodraeth Cymru, **Cymru'n Cofio 1914-1918, i ben yn swyddogol ym mis Mawrth 2020.**

Mae dogfen derfynol yn cael ei pharatoi gan dîm Cymru'n Cofio i adlewyrchu'r gwaith coffáu sylweddol a wnaed yng Nghymru a thu hwnt dros y chwe blynedd diwethaf. **Disgwylir y bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi tua diwedd 2020.** Bydd gwefan Cymru'n Cofio hefyd yn gadael gwaddol digidol ar gyfer y rhaglen, a bydd ar gael am y pum mlynedd nesaf.

## Archif Cyn-filwyr Gorllewin Cymru

**Mae Archif Cyn-filwyr Gorllewin Cymru, a gydlynir gan Age Cymru Dyfed**, yn gasgliad arloesol sy'n datblygu o hanes cyn-filwyr. Mae'r Archif yn cael ei chadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r Archif ddigidol hon yn cofnodi'r cyfraniadau a wnaed gan gyn-filwyr y Lluoedd Arfog sydd â'u gwreiddiau yng Ngorllewin Cymru neu sydd â chysylltiadau â'r ardal ers yr Ail Ryfel Byd. Mae'r Archif wedi cael ei dylunio i fod ar gael i'r cyhoedd, ac yn ddibynadwy a chynaliadwy. Mae'r Archif, a ddechreuodd yn ystod haf 2020, eisoes yn cynnwys llawer o gyfraniadau gan gyn-filwyr a fu'n gwasanaethu yn yr Ail Ryfel Byd, y Gwasanaeth Cenedlaethol, y Lluoedd Rheolaidd, y Lluoedd Wrth Gefn ac ym Myddin Dir y Menywod.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud – Ymrwymiadau 2020/21

## Iechyd a lles

- Adolygu gallu GIG Cymru i Gyn-filwyr i ehangu'r gwasanaeth ymhellach ar gyfer cyn-filwyr sydd ag anghenion iechyd meddwl.
- Adolygu ein Canllawiau ar Gyfamod y Lluoedd Arfog – Blaenoriaeth Gofal Iechyd i Gyn-filwyr, sy'n hyrwyddo arferion sy'n galluogi'r GIG i adnabod cyn-filwyr, ac yn galluogi cyn-filwyr i gael blaenoriaeth wrth gael triniaeth os yw eu cyflwr yn deillio o'u cyfnod yn y Lluoedd Arfog.
- Parhau i fonitro'r gwaith o roi cefnogaeth i gyn-bersonél y Lluoedd Arfog sydd wedi colli rhan o'u corff.
- Gweithio gyda darparwyr presennol i hyrwyddo gwasanaethau cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau yng nghymuned y Lluoedd Arfog.
- Parhau i hyrwyddo ein Strategaeth Beth am Siarad â Fi? 2 yn y sector, i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i helpu i fynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niweidio.
- Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen ag argymhellion yr Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr mewn perthynas â gofal iechyd.

## Addysg

- Byddwn yn parhau i weithio i wella'r gwaith o gasglu data am blant y Lluoedd Arfog yng Nghymru.
- Parhau i gefnogi prosiect SSCE Cymru, sy'n rhoi adnoddau ac arweiniad gwerthfawr i blant, teuluoedd ac ysgolion y Lluoedd Arfog.

## Tai

- Asesu canllawiau tai i sicrhau bod egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog yn dal i gael eu hadlewyrchu.
- Bwrw ymlaen ag argymhellion yr Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr mewn perthynas â'r ddarpariaeth dai ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog.

## Buddion a Chyllid

- Codi ymwybyddiaeth o'r buddion a'r ddarpariaeth sydd ar waith i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog, gan gynnwys y rheini sy'n cael taliadau iawndal.
- Bwrw ymlaen ag argymhellion yr Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr mewn perthynas â'r cymorth ariannol sydd ar gael i gymuned y Lluoedd Arfog.
- Parhau i ddarparu cynlluniau teithio am ddim ar fysiau ar gyfer cyn-filwr sydd wedi cael eu hanafu wrth wasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

## Cymorth wrth ddychwelyd i fywyd allan o'r Lluoedd Arfog

- Ariannu a chefnogi gwaith Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog er mwyn nodi materion allweddol y bydd Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, a'r gwaith Cwmpasu Cyn-filwyr, yn gweithredu arnynt.
- Parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith gyda phartneriaid allweddol drwy Grŵp Cyllid/Ymwybyddiaeth a Gwybodaeth yr Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr, er mwyn dod o hyd i'r system fwyaf effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.

- Bwrw ymlaen â gwaith y Grŵp Gweithredu ar Adael y Lluoedd Arfog i sicrhau dull cydweithredol o gefnogi a darparu gwasanaethau i gyn-filwyr a'u teuluoedd sydd angen cymorth ar ôl dychwelyd i fywyd bob dydd.
- Gweithio gyda'r Bartneriaeth Newid Gyrfa a Brigâd 160 (Cymru) – Pencadlys, i ddatblygu Canllaw Adsefydlu Cymru.

**Cyflogaeth a sgiliau**

- Cyhoeddi atodiad ynghylch helpu gwŷr/gwragedd priod y Lluoedd Arfog, mewn partneriaeth â Busnes yn y Gymuned a Llywodraeth yr Alban.
- Bwrw ymlaen ag argymhellion yr Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr mewn perthynas â swyddi ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog.
- Bwrw ymlaen â'r gwaith i gyflwyno'r Cynllun Symud Ymlaen i Fyd Gwaith a'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad yn Llywodraeth Cymru.

**Llywodraethu**

- Parhau i weithio gydag adrannau'r DU a'r gwledydd datganoledig ar gynigion ar gyfer y Ddeddfwriaeth newydd ar Gyfamod y Lluoedd Arfog.
- Gweithio gyda phartneriaid yn y DU i sicrhau bod yr Ymarfer Cwmpasu Cyn-filwyr yn parhau i helpu i gyflawni Strategaeth y DU ar gyfer ein Cyn-filwyr.
- Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, a phartneriaid yn y DU, i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt i gyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog.

**Coffáu**

- Byddwn yn gweithio gyda CLlLC, y Lluoedd Arfog, Llywodraeth Leol a phartneriaid yn y Trydydd Sector ar gynlluniau ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Byddwn yn darparu cymorth ariannol ar gyfer y digwyddiadau hynny.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid allweddol i gefnogi digwyddiadau Coffa, gan gynnwys Brwydr Prydain a Dydd y Cofio.

# Gair i Gloi

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun byw o'r gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru a thu hwnt i roi cymorth i gymunedau'r Lluoedd Arfog a'n cyn-filwyr.

Eleni, hoffwn dynnu sylw'n benodol at y gwaith amhrisiadwy a wneir gan bersonél y Lluoedd Arfog fel rhan o ymateb ein gwlad i COVID-19.

Mae ein cyn-filwyr wedi gwneud eu rhan hefyd mewn ffordd ymarferol iawn. Er enghraifft, **Canolfan Cyn-filwyr Penparcau, Aberystwyth**. Mae'r cyn-filwyr dan sylw wedi bod yn darparu system gyfeillio, ac wedi bod yn helpu gyda siopa a darparu meddyginiaethau. Sefydlodd **VC Gallery, Hwlffordd**, 'ystafell reoli' i gydlynu cyswllt dros y ffôn ar gyfer cyn-filwyr bregus, help gyda siopa a gweithdai ar-lein. Maen nhw hefyd wedi cysylltu â thimau iechyd meddwl/yr heddlu/darparwyr lles sy'n helpu'r bobl fwy bregus yn ein cymunedau.

Rydym yn diolch i'r bobl hynny a'r holl unigolion a sefydliadau eraill – gan gynnwys elusennau'r Lluoedd Arfog – sydd wedi mynd yr ail filltir i roi cymorth yr oedd wir ei angen yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Fel rwy'n gobeithio mae'r adroddiad hwn yn dangos, rydym yn dal wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, a byddwn yn parhau i weithio gyda Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog ac eraill i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen.



**Hannah Blythyn AS**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol